Ardal Gadwraeth Llansantffraed

Arfarniad a Chynllun Rheoli
Fersiwn Ymgynghori

Tachwedd 2026



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Llun clawr trwy garedigrwydd Heneb

Cynnwys

Rhan 1: Arfarniad Ardal Gadwraeth

1. Cyflwyniad 6
2. Deddfwriaeth, Polisi Cynllunio a Chanllawiau 9
3. Diffiniad o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig 13
4. Cyd-destun Ffisegol 20
5. Datblygiad Hanesyddol 27
6. Mapio Hanesyddol 36
7. Dadansoddiad Gofodol 40
8. Cymeriad Pensaernïol 54
9. Asedau Hanesyddol Dynodedig 60
10. Asedau Hanesyddol Heb eu Dynodi 63
11. Cymdeithasau Hanesyddol a Thraddodiadau 64
12. Hanesion Cudd 66
13. Bioamrywiaeth 71
14. Dadansoddiad SGCB 74

Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

15. Cyflwyniad 76
16. Canllawiau Cynllunio Atodol 77
17. Adolygiad Ffin 79
18. Cyfarwyddiadau Erthygl 4 82
19. Rhestru Lleol 85
20. Gorfodaeth Cynllunio 88
21. Cofrestru 90
22. Addysg, Dehongli a Dathlu 93

23. Monitro ac Adolygu 95

Cyfeiriadau ac Atodiadau

24. Atodiadau 98

25. Cyfeiriadau 99



Rhan 1: Arfarniad Ardal Gadwraeth

1. Cyflwyniad

1.1. Ardaloedd Cadwraeth

1.1.1. Diffinnir ardaloedd cadwraeth fel ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg. Gall yr ardaloedd hyn amrywio o ganol trefi hanesyddol i ardaloedd preswyl nodedig, safleoedd treftadaeth ddiwydiannol a hyd yn oed parciau a chamlesi.

1.1.2. Cyflwynwyd y cysyniad o ardaloedd cadwraeth trwy Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967. Roedd y ddeddfwriaeth yn nodi adeg dyngedfennol ym maes gwarchod treftadaeth, gan symud y ffocws o ddiogelu adeileddau unigol i warchod yr amgylchedd hanesyddol ehangach wrth i'r ddeddfwriaeth geisio diogelu nid yn unig adeiladau unigol, ond treftadaeth a chymeriad cyfunol lle.

1.1.3. Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) sy'n gyfrifol yn bennaf am ddynodi ardaloedd cadwraeth, ac maent yn nodi ac yn asesu ardaloedd o ddiddordeb arbennig o fewn eu hawdurdodaeth. Mae'r dynodiadau hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad neu newidiadau newydd o fewn yr ardal yn cael eu rheoli'n ofalus i gynnal ei chymeriad unigryw.

1.1.4. Er mwyn cynorthwyo gyda rheoli newid yn ofalus, mae nifer o reolaethau arbennig ar gael i ardaloedd cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys rheolaethau ynghylch dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

1.2. Ardal Gadwraeth Llansantffraed

1.2.1. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Llansantffraed yn ffurfiol gan aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Cyngor Sir Ceredigion ar 17 Tachwedd 1993 oherwydd arwyddocâd hanesyddol yr ardal.

1.2.2. Mae Ardal Gadwraeth Llansantffraed yn cwmpasu ardal o tua 29 hectar, yn bennaf rhwng Afon Peris ac Afon Cledan. Mae'r ardal hon yn cwmpasu craidd hanesyddol Llansantffraed a'r system caeau agored ganoloesol brin a elwir yn

lleol yn 'Lleiniau Morfa Esgob'. Mae'r Ardal Gadwraeth yn ymestyn ychydig i'r gogledd o Afon Peris i gynnwys Eglwys Sant Ffraed, adeilad rhestredig Gradd II*.

1.2.3. Nid yw ffiniau'r Ardal Gadwraeth wedi cael eu newid ers ei dynodiad yn 1993. Gellir gweld maint llawn yr Ardal Gadwraeth ar y map yn Ffigur 1.


1.3. Pwrpas

1.3.1. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, yn ei rôl fel yr ACLl, i adolygu unrhyw ardaloedd cadwraeth yn y sir o bryd i'w gilydd, a llunio cynigion ar gyfer eu cadw a'u gwella.

1.3.2. Ystyrir bod arfarniadau ardal gadwraeth yn sail ar gyfer unrhyw gynigion ar gyfer cadwraeth a gwella gan eu bod yn tynnu sylw at ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau. Yna mae hyn yn darparu sail ar gyfer cynllun rheoli mwy manwl a all roi sylw i'r materion a godir yn yr arfarniad trwy nodi cynigion rheoli realistig.

1.3.3. Felly, diben yr adroddiad hwn yw darparu asesiad o Ardal Gadwraeth bresennol Llansantffraed. Bydd yr arfarniad hwn yn ceisio dangos beth sy'n gwneud yr ardal yn arbennig, gan ddarparu dealltwriaeth gyffredin o'i chymeriad a'i phwysigrwydd, er mwyn llywio gwneud penderfyniadau a'i rheoli yn y dyfodol.

Ffigur 1: Map o Ardal Gadwraeth Llansantffraed



2. Deddfwriaeth, Polisi Cynllunio a Chanllawiau

2.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.1.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef bod anghenion y presennol yn cael eu hateb heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain.

2.1.2. Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a gall gyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant gwell. Os yw'r amgylchedd hanesyddol ym mynd i barhau i gynnig ei fuddion cyfoethog i gymunedau, mae angen nodi beth sy'n arwyddocaol amdano a rheoli newid mewn ffordd sensitif a chynaliadwy.

2.2. Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

2.2.1. Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 gydsyniad brenhinol ar 14 Mehefin 2023 a daeth i rym ar ddiwedd 2024. Roedd y Ddeddf wedi dod â'r holl ddeddfwriaeth bresennol ynghylch yr amgylchedd hanesyddol ynghyd mewn un ddeddf ddwyieithog heb effeithio ar lefelau presennol o ddiogelwch neu ddyletswyddau.

2.2.2. Mae Adran 158 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i ACLl benderfynu pa rannau o'i hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg, a dynodi'r rhain yn 'ardaloedd cadwraeth'.

2.2.3. Mae Adran 159 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar ACLl i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'r ardaloedd cadwraeth hyn o bryd i'w gilydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ACLl roi ystyriaeth arbennig i

ddymunoldeb cadw neu wella ardal gadwraeth wrth arfer swyddogaethau cynllunio.

2.3. Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12

2.3.1. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPC) yn amlinellu polisïau defnydd tir a chynllunio Llywodraeth Cymru ac yn sefydlu'r egwyddorion allweddol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru. Mae cynlluniau datblygu yn cymhwyso'r egwyddorion hyn i'w hardaloedd priodol. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.

2.3.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio sicrhau bod y system gynllunio yn creu lleoedd cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymunedau trwy fabwysiadu dull creu lleoedd. Mae hwn yn ddull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a mannau, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol.

2.3.3. Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru 12. Mae'n nodi y bydd ACLlau yn arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.

2.4. Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

2.4.1. Mae Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru ac yn darparu cyngor cynllunio manwl ar bynciau penodol. Cânt eu hystyried gan awdurdodau cynllunio wrth baratoi cynlluniau datblygu a phenderfynu ceisiadau cynllunio.

2.4.2. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (TAN 24) yn rhoi canllawiau ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Mae'n rhoi canllawiau ar faterion megis safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth ymhlith materion eraill.

2.4.3. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24 yn nodi mai arfarniadau ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth. Mae'n datgan y dylent roi darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal a nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a all fod yn sail ar gyfer cynllun rheoli manylach.

2.5. Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy

2.5.1. Mae Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy wedi'u paratoi gan Cadw i sicrhau bod unrhyw newid i asedau hanesyddol yn cael ei reoli'n ofalus, ei fod o ansawdd uchel ac yn cael ei wneud mewn ffordd sensitif. I helpu i wneud hyn, mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol, sef:

- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
- Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig
- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
- Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
- Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
- Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt.

2.6. Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru

2.6.1. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn un o gyfres o ddogfennau canllawiau arfer gorau Cadw sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chanllawiau cynllunio cysylltiedig ynghylch rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy.

2.6.2. Mae'r ddogfen yn nodi agweddau allweddol o arfer da ar gyfer dynodi ac arfarnu ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

2.7. Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022

2.7.1. Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (CDLl) yn nodi polisïau a chynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Er bod CDLl Ceredigion wedi cyrraedd dyddiad diwedd y cynllun, bydd yn parhau i fod yn rhan o'r cynllun datblygu statudol hyd nes bod CDLl newydd yn cael ei fabwysiadu.

2.7.2. Rhaid penderfynu ceisiadau caniatâd cynllunio yn unol â'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn CDLl Ceredigion a Chymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

2.7.3. Mae Polisi DM07 CDLl Ceredigion yn amlinellu sefyllfa bolisi'r ACLl mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardal gadwraeth ddangos bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r Arfarniad Ardal Gadwraeth perthnasol, lle bo ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.

2.8. Canllawiau Cynllunio Atodol yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio

2.8.1. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn un o nifer o ddogfennau canllaw a baratowyd gan Gyngor Sir Ceredigion i helpu i ddehongli a gweithredu polisïau a chynigion y CDLl.

2.8.2. Nod Canllawiau Cynllunio Atodol yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yw rhoi canllawiau ar y materion y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu adeiladau amrywiol. Felly mae ei gynnwys yn berthnasol i gynigion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

3. Diffiniad o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig

3.1. Gwerthoedd Treftadaeth

3.1.1. Mae Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy Cadw (2011) yn nodi pedwar gwerth cydrannol y mae angen eu hystyried er mwyn asesu arwyddocâd ased hanesyddol, sef:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.
- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd oedd yn bwysig iddynt. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.
- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddyluniad a chrefftwaith pwrpasol neu'r ffordd y mae wedi newid dros amser trwy hap a damwain. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd: gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.
- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol fod yn bwysig i'r bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiadau neu atgofion cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.

3.1.2. Mae'r adrannau canlynol yn defnyddio'r gwerthoedd treftadaeth hyn ac yn rhoi crynodeb o gyflwr Ardal Gadwraeth Llansantffraed ar hyn o bryd er mwyn nodi diddordeb arbennig yr ardal.

3.2. Gwerth Tystiolaethol

3.2.1. Mae Ardal Gadwraeth Llansantffraed yn cynnwys tystiolaeth ryfeddol o system cae agored ganoloesol o'r enw 'Morfa Esgob'. Mae ei phatrwm nodedig o stribedi tyfu hir, hirsgwar (y cyfeirir atynt hefyd fel 'slangs' neu 'lleiniau') yn darparu tystiolaeth diriaethol o batrymau defnydd tir hanesyddol ac arferion amaethyddol. Mae arwyddocâd Morfa Esgob yn cael ei gynyddu gan brinder systemau cae agored sydd wedi goroesi ar dir mawr Cymru, gydag enghreifftiau tebyg yn cynnwys The Hugden a Whitehall Down yn Nhalacharn, Sir Gaerfyrddin, a'r Vile yn Rhosili, Gŵyr. Mae'r prinder hwn, ynghyd â darllenadwy y patrwm caeau sydd wedi goroesi, yn rhoi gwerth tystiolaeth sylweddol i Morfa Esgob ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ddeall arferion amaethyddol hanesyddol a pherchnogaeth a threfniadaeth tir. Fel y mae Jones (1985) yn sylwi:

> *"Nid oes modd cael gwell argraff ar ffurf a phatrwm anheddiad canoloesol Cymru nag yn yr ardal a elwir yn Morfa Esgob".*[1]

3.2.2. O fewn yr Ardal Gadwraeth, a thrwy Llansantffraed a Llanon, gellir dod o hyd i enghreifftiau pellach o gaeau stribed, balciau, waliau terfyn a bythynnod traddodiadol gwerinol Cymreig cysylltiedig. Mae'r nodweddion hyn, ochr yn ochr ag olion trapiau pysgota ac odynau calch i'r gorllewin a'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth, yn dangos tarddiad amaethyddol a morwrol hynafol yr anheddiad.

3.2.3. Mae ffurf adeiledig yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys bythynnod gwerinol yn bennaf, ond mae ambell i enghraifft o arddulliau pensaernïol eraill, e.e. Sioraidd. Y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, mae'r arddulliau pensaernïol yn fwy amrywiol gyda'r ffurf adeiledig yn amrywio o Neuadd o'r 16eg ganrif i fythynnod dechrau'r

[1] Jones, GRJ yn Medieval Villages: A review of Current Work, golygwyd gan Della Hooke, Ysgol Archaeoleg Prifysgol Rhydychen, 1985.

19eg ganrif, tai Sioraidd, terasau a filas Fictoraidd. Mae'r rhain i gyd yn cynnwys enghreifftiau o fanylion pensaernïol, deunyddiau adeiladu, arddulliau, technegau a ffasiynau sy'n berthnasol i'w cyfnodau priodol a sgiliau'r bobl leol oedd yn byw yn yr ardal.

3.2.4. Mae'r ddogfennaeth hanesyddol helaeth a daliadau archifol Cymdeithas Hanesyddol Llansantffraed, Archifau Cyngor Sir Ceredigion, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Heneb a Cadw yn darparu adnodd gwerthfawr i gefnogi ymchwil i'r ardal yn y dyfodol. Dylid nodi eu bod i gyd yn pwysleisio bod y system caeau agored ganoloesol sydd wedi goroesi yn bwysig, yn unigryw ac yn brin, a bod llu o dystiolaeth yn bodoli sy'n dangos sut mae'r caeau wedi newid a chael eu defnyddio dros amser.

3.3. Gwerth Hanesyddol

3.3.1. Mae'r system cae agored canoloesol ym Morfa Esgob o werth hanesyddol sylweddol gan ei fod yn rhoi mewnwelediad i berchnogaeth a threfniadaeth tir hanesyddol, arferion ffermio canoloesol, a datblygiad aneddiadau a sut maent yn gysylltiedig yn ofodol ac yn economaidd â thir fferm cyfagos.

3.3.2. Mae'r lleiniau eu hunain yn ffurfio rhan yn unig o'r hyn a oedd yn anheddiad canoloesol, ac ar un adeg roedd 3 phentrefan canoloesol ar wahân wedi'u lleoli ar gyrion Morfa Esgob o fewn yr uned weinyddol a elwir Rhandir yr Esgob. Heddiw mae'r 3 phentrefan hyn wedi uno i ffurfio pentrefi Llanon a Llansantffraed.

3.3.3. Ac eithrio rhai nodweddion nodedig fel yr eglwys ganoloesol, mae ffurf adeiledig yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys adeiladau o'r 19eg a'r 20fed ganrif yn bennaf. Mae hyn yn dyst i dwf y diwydiannau morwrol ac amaethyddol yn ystod y cyfnod hwn a gynyddodd ffyniant Gorllewin Cymru. Mae'r dystiolaeth a'r ddogfennaeth sy'n dangos twf a dirywiad y diwydiant morwrol ar hyd arfordir gorllewinol Cymru yn nodweddiadol o sefyllfa'r ardal, ac yn ychwanegu dyfnder at arwyddocâd yr ardal.

3.3.4. Fodd bynnag, mae gan ardal ehangach Llansantffraed a Llanon gysylltiad morwrol ac amaethyddol cryf iawn trwy'r oesoedd. Mae hyn i'w weld yn y trapiau pysgod Oes yr Haearn a chanoloesol, odynau calch ôl-ganoloesol, a'r dystiolaeth o'r diwydiant adeiladu llongau yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif.

3.3.5. Roedd adeiladu llongau yn ddiwydiant pwysig yn Llansantffraed a Llanon gyda nifer o adeiladwyr llongau ac iardiau llongau yn gweithredu yn yr ardal gan gynnwys Henry Harries a William Davies ac iardiau megis Aberlong, Pwll y Borthyn, Alltwyd, Abercledan/Felin For a Peris a oedd yn darparu cyflogaeth i gyfran helaeth o'r boblogaeth leol. Ar ei anterth, roedd adeiladu llongau yn yr ardal yn eithaf sylweddol o'i gymharu â maint y pentrefi.

3.4. Gwerth Esthetig

3.4.1. Mae Ardal Gadwraeth Llansantffraed yn hen ffasiwn ac yn ddeniadol yn weledol oherwydd goroesiad asedau treftadaeth megis yr eglwys ganoloesol, bythynnod cerrig llawn cymeriad, eiddo â blaen Sioraidd gyda gwteri a rheiliau haearn addurnol, waliau terfyn cerrig, lonydd cul, deiliach helaeth a chaeau stribed. Mae ei lleoliad arfordirol yn ategu'r ardal ac yn darparu cefndir i'r lleiniau.

3.4.2. Nodweddir ffurf adeiledig yr Ardal Gadwraeth gan y gwaith cerrig a'r gwyngalch sydd i'w gweld ar y bythynnod gwerinol a'u waliau terfyn ochr yn ochr ag ychydig o eiddo Sioraidd. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â'r eiddo Sioraidd, Fictoraidd ac Edwardaidd sy'n dominyddu yn Llanon lle mae rhai wedi'u gorffen â cherrig ac mae eraill wedi'u rendro mewn amrywiaeth o liwiau gyda nodweddion mwy gothig ac addurnol. Mae'r gwaith maen a'r gwyngalch, ochr yn ochr â phatrymau caeau Morfa Esgob, yn bwysig iawn i gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

3.4.3. Mae lonydd cul, troellog Heol-yr-Esgob yn rhoi teimlad hynafol, diarffordd. Mae hyn hefyd i'w deimlo mewn ardaloedd eraill y tu hwnt i ffin yr Ardal Gadwraeth lle mae ffurf adeiladu o ddechrau'r 19eg ganrif yn parhau, megis Heol Non a Stryd-y-Capel.

3.4.4. Fodd bynnag, mae'r llwybrau troed a'r lonydd sy'n amgylchynu ac yn croesi Morfa Esgob yn caniatáu i ni weld y system caeau agored ganoloesol a golygfeydd eang ysblennydd o Fae Ceredigion. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio a'u mwynhau'n rheolaidd gan bobl leol ac ymwelwyr.

3.5. Gwerthoedd Cymunedol

3.5.1. Mae'r Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys Morfa Esgob, Eglwys Sant Ffraed ac eiddo preswyl ar hyd Heol-yr-Esgob yn bennaf. Felly mae'r ardal yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned am ei defnydd hamdden ac amaethyddol ochr yn ochr â'i gwerth hanesyddol.

3.5.2. Er mwyn cael dealltwriaeth well o farn y cyhoedd, cynhaliwyd digwyddiad galw heibio cyhoeddus yn Neuadd Bentref Llanon ar 11 Medi 2024.

3.5.3. Gan nad oedd unrhyw Arfarniad Ardal Gadwraeth neu Gynllun Rheoli blaenorol yn bodoli ar gyfer Llansantffraed, cafodd nifer o ddeunyddiau eu harddangos i roi cyd-destun. Roedd y rhain yn cynnwys mapiau hanesyddol yn dangos sut roedd yr ardal wedi datblygu dros amser, trosolwg hanesyddol byr, a chanllawiau ar bwrpas a goblygiadau dynodi ardal gadwraeth.

3.5.4. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau i asesu barn y gymuned. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dadansoddiad CGCB (SWOT)
- Ymarfer Mapio
- Ymarfer Adnabod Perchnogaeth Lleiniau
- Ymarfer Rhyngweithiol Coch, Oren a Gwyrdd

3.5.5. Daeth mwy na hanner cant o bobl i'r sesiwn galw heibio a chafwyd nifer o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i lywio'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn bennaf yn cynnwys:

- Cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y broses a'r gwaith arfarnu.
- Pryder ynghylch datblygiadau tai yn ymledu i'r lleiniau sydd heb eu lleoli o fewn yr Ardal Gadwraeth.
- Pryder nad oes mwy o ddiogelwch ar gyfer y lleiniau, megis cofrestru.
- Pryder ynghylch diffyg arfarniad a chynllun rheoli presennol.
- Pryder ynghylch effeithiau gweledol a ffisegol arferion ffermio modern ar y lleiniau.
- Cefnogaeth ar gyfer mwy o fesurau gorfodi cynllunio.
- Ceisiadau i estyn ffin yr Ardal Gadwraeth.
- Ceisiadau i gynnwys adeiladau hanesyddol ychwanegol ar draws Llansantffraed a Llanon, e.e. y Bwthyn Amgueddfa i'r de, yn yr Ardal Gadwraeth.

3.5.6. Mae'r gyfradd ymgysylltu hon yn eithriadol o uchel ar gyfer ardal mor fach â Llansantffraed. Mae'n amlwg o'r ymatebion ysgrifenedig a llafar bod y gymuned leol yn ymfalchïo'n fawr yn yr ardal, ei phensaernïaeth a'i hanes, a'i bod am iddi gael ei chadw a'i gwella.

3.6. Disgrifiad Cryno

Tabl 1: Crynodeb o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

Arwyddocâd Tystiolaethol	Arwyddocâd Hanesyddol	Arwyddocâd Esthetig	Arwyddocâd Cymunedol
Uchel/Canolig	Uchel/Canolig	Canolig	Uchel

3.6.1. Mae Ardal Gadwraeth Llansantffraed yn cynnwys yn bennaf yr ardal a elwir yn lleol fel Morfa Esgob. Mae arwyddocâd hanesyddol Morfa Esgob yn deillio o

fodolaeth system caeau agored ganoloesol gyda chaeau stribed neu leiniau sy'n parhau i gael eu ffermio hyd heddiw.

3.6.2. Mae bodolaeth y system gaeau ganoloesol yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar arferion ffermio a pherchnogaeth tir yng Nghanolbarth Cymru yn ystod y cyfnod canoloesol, ac mae goroesiad system o'r fath yn brin iawn yng Nghymru.

3.6.3. Mae gwerth esthetig yr Ardal Gadwraeth yn deillio o'r bythynnod cerrig gwerinol traddodiadol wedi'u gwyngalchu bob ochr i Heol-yr-Esgob ac sydd wedi datblygu wrth droed yr eglwys hanesyddol rhestredig Gradd II* y credir ei bod yn dyddio o'r 12fed neu'r 13eg ganrif. Mae hyn yn cael ei ategu gan yr amgylchedd naturiol sydd yn amlwg wedi'i lunio gan arferion amaethyddol a morwrol. Mae enghreifftiau o arddulliau pensaernïol eraill o bwys, gan gynnwys arddull Sioraidd, i'w gweld yn yr Ardal Gadwraeth, fodd bynnag mae'r rhain yn fwy amlwg yn Llanon.

3.6.4. Mae nodweddion yr Ardal yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned leol, yn enwedig y system caeau agored brin y mae llawer yn ei mwynhau diolch i'r hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi'r caeau. Fodd bynnag, mae llawer yn mynegi pryderon ynghylch y bygythiadau a achosir gan arferion amaethyddol newidiol a datblygiadau newydd ar gyrion yr Ardal Gadwraeth.

4. Cyd-destun Ffisegol

4.1. Lleoliad a Safle

4.1.1. Pentref arfordirol hanesyddol yng Ngorllewin Cymru yw Llansantffraed. Wedi'i leoli yn sir Ceredigion, mae'r pentref tua 5 milltir i'r gogledd o dref harbwr Aberaeron a 12 milltir i'r de o anheddiad mwyaf y sir, Aberystwyth. Yn union i'r dwyrain o Lansantffraed mae pentref Llanon. Gyda'i gilydd, mae'r aneddiadau hyn yn ffurfio 'Canolfan Gwasanaethau Gwledig' Llanon.

4.1.2. Mae Llansantffraed a Llanon wedi'u lleoli ar wastatir arfordirol sy'n cael ei gwrdd ar ei ffin ddeheuol gan y bryniau y tu ôl i Glostir yr Oes Haearn Morfa Uchaf. Mae'r ardaloedd mewndirol i'r dwyrain o Lanon yn codi'n serth gyda Nebo, pentref sy'n gysylltiedig yn draddodiadol â Llansantffraed a Llanon, wedi'i leoli ar y llwyfandir.

4.1.3. Mae bryniau i'r dwyrain a'r de yn darparu cefndir gwyrdd dymunol. Mae adeiladu ar y llethrau hyn yn gyfyngedig oherwydd y tir serth sy'n golygu bod lleoliad yr Ardal Gadwraeth wedi cael ei ddiogelu.

4.1.4. Nodweddir gorllewin Llansantffraed gan gwymp serth sy'n arwain at yr arfordir eang. Cerrig mân yw'r traeth yn bennaf gyda rhai mannau tywodlyd. Mae'r arfordir yn gartref i nifer o drapiau pysgod o'r Oes Haearn, y cofnodwyd eu bod yn cael eu defnyddio tan y 19eg ganrif, ac odynau calch oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth. Mae llongddrylliadau wedi'u cofnodi oddi ar yr arfordir sy'n dyst i orffennol y diwydiant adeiladu llongau yn yr ardal.

4.1.5. I'r de-ddwyrain o'r Ardal Gadwraeth mae'r datblygiad presennol yn dyddio o'r 19eg ganrif gydag adeiladu Capel Mawr a Chapel House yn 1844 a thai eraill o ganol y 19eg ganrif ar hyd Stryd-y-Capel.

4.1.6. I'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth mae'r A487 lle mae pentref Llanon wedi datblygu. Yma gwelwn sawl rhes o derasau o ganol y 19eg ganrif ar y ddwy ochr, ac mae rhai ohonynt yn arddull bensaernïol Sioraidd ac wedi'u rhestru'n adeiladau Gradd II. Tuag at ben gogleddol y pentref mae enghreifftiau o fythynnod o gyfnod

cynharach yn y 19eg ganrif, un gyda tho gwellt traddodiadol. Mae pâr o fythynnod o ddechrau'r 19eg ganrif i'w weld hefyd i'r gogledd-ddwyrain yn ogystal â'r de-ddwyrain yn Heol Non gyda'r Amgueddfa a Ty'n Cwm. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan y Neuadd Tuduraidd.

4.1.7. Ar un adeg roedd ardaloedd i'r dwyrain o'r A487 yn cael eu ffermio mewn modd tebyg i Morfa Esgob fel y dangosir gan weddillion caeau stribed sydd i'w gweld hyd heddiw.

4.1.8. Mae'n amlwg bod arferion diwydiannol hanesyddol wedi dylanwadu ar yr Ardal Gadwraeth a'i safle. Mae hyn yn amlwg yng ngwaith Parkinson sy'n nodi nifer o felinau canoloesol ac ôl-ganoloesol o fewn ac o amgylch yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain wedi cael eu cofnodi mewn adroddiadau blaenorol gan gynnwys Accounts of the Chamberlain of West Wales (1301), the Account of Walter de Pedetori (1277-1301) a'r Hendrefelen Deeds (1629-1823). [2] [3] [4]

4.2. Tirwedd

4.2.1. Mae LANDMAP yn offeryn sy'n helpu i wneud penderfyniadau cynaliadwy a chynllunio adnoddau naturiol ar amrywiaeth o lefelau o'r lleol i'r cenedlaethol gan sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

4.2.2. Mae LANDMAP yn dosbarthu tirweddau o safbwynt unigryw 5 set ddata. Y 5 set ddata ofodol sy'n genedlaethol gyson yw:

- Tirweddau Daearegol
- Cynefinoedd Tirwedd
- Gweledol a Synhwyraidd

[3] Doherty, Eric and Joyce. *Notes on Llanon / Llansantffraed,* 2008.
[4] "Turnpike and Pre-Turnpike roads in Ceredigion." *Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed*, 2016.

- Tirweddau Hanesyddol
- Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol

4.2.3. Mae'r asesiadau tirwedd hyn yn eang ac yn cwmpasu ardal llawer ehangach na'r Ardal Gadwraeth sydd dan sylw yn yr arfarniad hwn. Dangosir cwmpas llawn ardal Tirwedd Hanesyddol LANDMAP sy'n cynnwys Llansantffraed yn Ffigur 2.

4.2.4. Ar gyfer yr ardal sy'n cwmpasu Llansantffraed a Llanon, mae datganiad cymeriad tirwedd hanesyddol LANDMAP yn nodi:

'Mae'r ardal hon yn cynnwys pentref Llanon a'r rhan sydd wedi goroesi o'r hen system caeau agored. Mae'n bentref llinellog, gyda'r rhan fwyaf o'r tai cerrig yn dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif. Mae rhai tai o'r 20fed a'r 21ain ganrif i'w gweld ar y cyrion. Mae'r hen gaeau agored bellach wedi'u lleihau'n fawr o ran maint. Mae rhai o'r bwlciau rhwng y stribedi yn amlwg o hyd. Ar hyn o bryd mae'r ardal yn cynnwys 1 Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a 33 Adeilad Rhestredig sy'n gysylltiedig ag adeiladau canoloesol ac ôl-ganoloesol yn bennaf'.

4.2.5. Mae ei werth wedi'i werthuso fel 'rhagorol' gyda'r canlynol wedi'i nodi:


'Mae'r enghraifft dda o anheddiad cnewyllol hanesyddol bach yn cynnwys olion system caeau agored – nodwedd unigryw yng Ngheredigion. Felly, mae gwerth rhagorol yn briodol, er nad yw rhai elfennau mewn cyflwr da.'

4.2.6. Y nodweddion tirwedd hanesyddol allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal hon yw:

- Patrymau Hanesyddol Pwysig:
  - Tirweddau Caeau Rheolaidd
  - Tirweddau Caeau Eraill
  - Anheddiad Heb Fod yn Gnewyllol
  - Tirwedd wedi'i Dylunio

- Mathau o Ffiniau Traddodiadol Cyffredin:
    - Gwrychoedd
    - Cloddiau
    - Cloddiau Pridd/Tywarch
    - Ffensys Post a Gwifren
- Natur y Diddordeb Archaeolegol:
    - Claddedig-sych
    - Cloddwaith creiriol
    - Adeiladau ac Adeileddau
- Cyfnod Cronolegol Amlycaf:
    - Cyn-hanesyddol
    - Canoloesol (hyd at 1536)
    - Ôl-ganoloesol (1536+)

Ffigur 2: Map o Ardal LANDMAP




4.2.7. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi bod Llansantffraed wedi'i lleoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol Arfordir Ceredigion. Diffinnir Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol ar raddfa tirwedd eang ledled Cymru. Mae'r proffiliau disgrifiadol ar gyfer y 48 ardal gymeriad unigol yn tanlinellu'r hyn sy'n gwneud un dirwedd yn wahanol i'r llall, gan gyfeirio at ei nodweddion naturiol ardal-benodol, ei nodweddion diwylliannol a chanfyddiadol.

4.2.8. Mae Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol Arfordir Ceredigion yn cwmpasu ardal fawr ac aneddiadau gan gynnwys Llanrhystud, Llanon a Llansantffraed, Aberaeron, Ceinewydd ac Aber-porth. Mae disgrifiad cryno o'r ardal yn nodi bod yr ardal o bwysigrwydd arbennig ar sail ei chynefinoedd morol, rhynglanwol ac arfordirol. Mae'n mynd ymlaen i nodi prysurdeb yr arfordir hwn yn y 19eg ganrif pan oedd llawer o'r 'Cardis' yn ennill eu bywoliaeth o'r môr ac adeiladu llongau, a phan oedd ffermwyr yn dibynnu ar galch wedi'i fewnforio a losgwyd yn yr odynnau arfordirol.[5]

[5] Disgrifiad LANDMAP: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/682597/nlca24-ceredigion-coast-description.pdf?rmode=pad&v=1d35c901ca49330

Ffigur 3: Map o Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol Arfordir Ceredigion



5. Datblygiad Hanesyddol

5.1. Trosolwg

5.1.1. Ni wyddys tarddiad yr ardal a elwir Llansantffraed. Fe'i crybwyllir gyntaf mewn hanesion ysgrifenedig, er yn anghywir, gan Geraldt Gymro yn ei lyfr *Itinerarium Cambriae*, ac fe'i hadleisir gan Itinerary John Leland 1535-1543.

5.1.2. Mae cofnodion eglwysig cynnar sy'n sôn am Lansantffraed yn cynnwys: Taxatio Ecclesiastica 1231 a Llyfr Du Tyddewi 1326 oherwydd presenoldeb yr eglwys sylweddol a leolir yma[6], yn ogystal â Brut y Tywysogion o'r 14eg ganrif.

5.1.3. Mae olion archaeolegol o'r Oes Efydd a'r Oes Haearn wedi cael eu darganfod yn Llansantffraed a Llanon gyda thystiolaeth glir o glostiroedd ac olion cnydau sy'n awgrymu gweithgarwch yn y cyfnod cyn yr Oes Haearn yn ogystal â'r cyfnod Brythonig-Rufeinig.

5.1.4. Yn y cyfnod canoloesol, mae ffynonellau'n dangos bod Llansantffraed wedi cael ei rhannu'n 4 rhan. Roedd y tir a elwir Morfa Mawr i'r de o Afon Cledan yn eiddo i Sistersiaid Ystrad Fflur; roedd Morfa Esgob rhwng Afon Cledan ac Afon Peris yn eiddo i Esgobion Tyddewi; ac roedd y tir i'r gogledd o Afon Peris yn eiddo i Farchogion y Deml, ac eithrio darn bach gerllaw'r eglwys a oedd yn bentrefan y Ficer.[7]

5.2. Cyn-hanesyddol / Oes Efydd / Oes Haearn (hyd at yr Oes Rhufeinig)

5.2.1. Nid yw topograffeg naturiol plwyf Llansantffraed yn un sy'n addas ar gyfer gwarchod arteffactau archaeolegol sylweddol o'r Oes Efydd, yr Oes Haearn neu gyfnod cynharach. Yn aml, mae ardaloedd arfordirol isel gyda thir ffermio da yn

[6] Denton, Jeff et al. *Taxatio*. Cyhoeddwyd gan The Digital Humanities Institute, Sheffield; 2014. https://www.dhi.ac.uk/taxatio/benkey?benkey=DA.CG.UA.03. Llyfr Du Tyddewi: Llyfr Du Tyddewi – Archifau a Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. https://archives.library.wales/index.php/black-book-of-st-davids.

[7] Doherty, Eric a Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.

arwain at hanes yn cael ei ddileu gan aneddiadau ac arferion ffermio diweddarach.[8]

5.2.2. Mae olion cyn-hanesyddol sy'n dyddio o'r cyfnod hwn naill ai o fewn cymuned ehangach Llansantffraed neu yn union y tu allan i'w ffiniau. Gellir gweld nifer o glostiroedd amddiffynedig ac olion cnydau wedi'u nodi gan Archaeoleg Dyfed, CADW a CBHC, gydag enghreifftiau'n cynnwys cloddwaith clostir amddiffynedig Oes Haearn Troedyrhiw, Pant Wilog a Gaer Gilfach Hafel. Ceir caerau mwy i'r gogledd a'r de. Mae'r rhain yn bodoli ochr yn ochr â darganfyddiadau arteffactau llai.[9]

5.2.3. Cafodd pen bwyell o'r Oes Efydd ei gofnodi ar Morfa Esgob gyda darganfyddiadau archaeolegol pellach wedi'u canfod tuag at Morfa Mawr i'r de. Mae trapiau pysgota o'r Oes Haearn ar hyd y darn hwn o'r arfordir hefyd cael eu cofnodi gan CBHC.

5.2.4. Nid oes prawf cadarn o weithgarwch yn ardal Morfa Esgob yn benodol ar yr adeg hon, er bod siawns dda bod y tir hwn yn dir âr.

5.3. Brythonig-Rufeinig

5.3.1. Mae tystiolaeth bendant o bresenoldeb y Rhufeiniaid yng Ngheredigion fel y mae JL a WH Davies yn ei nodi, ond mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth o hyn yn ardal Llansantffraed yn benodol.[10]

5.3.2. Gwyddom fod cyfres o gaerau Rhufeinig sy'n rhedeg o dde i ogledd y sir wedi'u cysylltu gan rwydwaith ffyrdd Sarn Helen. Fodd bynnag, nid oedd yn croesi

[8] Eric and Joyce Doherty, *Llanon/Llansantffraed*.
[9] CBHC https://rcahmw.gov.uk/. / https://coflein.gov.uk/en/search.
[10] Davies, J.L. "The Roman Period". Cardiganshire County History, Vol 1: From the Earliest Times to the Coming of the Normans', golygwyd gan D.P Kirkby, J.L Davies, Ieuan Gwynedd Jones, Gwasg Prifysgol Cymru, 2001,td.276-317.

Davies, W.H. "The Romans in Cardiganshire." Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society, Cyfrol 4, Rhif 2, 1961, td. 85-94.

Llansantffraed, yn hytrach roedd yn rhedeg trwy gefnwlad Trawscoed ac ymlaen i'r hyn sydd heddiw yn Capel Seion a Capel Bangor cyn parhau i'r gogledd tuag at Pennal a Dolgellau.

5.3.3. Mae CBHC wedi cofnodi bod Fferm Penlon, sydd wedi'i lleoli ar ymyl gogleddol yr Ardal Gadwraeth bresennol ger Eglwys Sant Ffraed, yn cynnwys tystiolaeth o ôl cnwd sy'n dyddio o'r Cyfnod Brythonig-Rufeinig. Mae enghraifft arall yn cynnwys Clostir Amddiffynedig/Ôl Cnwd Coed y Grip.

5.3.4. Mae'n bosibl bod arferion ffermio ac amaethyddol wedi parhau yn yr ardal hon o aneddiadau cynnar yr Oes Haearn blaenorol, ac mae mannau darganfod wedi'u nodi o amgylch Eglwys Sant Ffraed sy'n dyddio o'r cyfnod hwn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw olion sy'n awgrymu bod system caeau cyn-ganoloesol wedi bodoli ym Morfa Esgob.

5.4. Yr Oesoedd Canol

5.4.1. Yn ystod yr Oesoedd Canol gwelwyd y datblygiad mwyaf amlwg yn Llansantffraed a Llanon. Yn y cyfnod hwn mae'r tir a elwir yn lleiniau yn cael ei grybwyll mewn deunyddiau ffynhonnell megis Llyfr Du Tyddewi, Taxatio Ecclesiastica a Brut y Tywysogion. O'r cyfnod hwn y mae nodweddion hanesyddol cynharaf Llansantffraed wedi goroesi, er fel y noda Austin a Bezant yn Cardiganshire County History, mae'r dystiolaeth ddogfennol hon yn gyfyngedig.[11]

5.5. Oesoedd Canol Cynnar 400 – 1000 OC

5.5.1. Ychydig ar ôl y cyfnod Brythonig-Rufeinig dywedir bod mam Dewi Sant, Non, cael ei magu yma a bod pentref Llanon wedi'i enwi ar ei hôl hi. Nid ydym yn sicr ynghylch ffurf y system caeau agored ac a oedd mewn gwirionedd yn bodoli yn y

[11] Austin, David, and Jemma Bezant. "The Medieval Landscapes of Cardiganshire." *Cardiganshire County History Volume 2: Medieval and Early Modern Cardiganshire*, golygwyd gan Geraint H. Jenkins et al., Rhifyn 1af., Gwasg Prifysgol Cymru, 2019, td. 1-34
'Documents are scarce even from ecclesiastical estates and what survives gives only fleeting insights into how things were done and under what conditions.'

cyfnod cynnar hwn, ond mae'n rhesymol i gredu bod ffermio wedi parhau yn yr ardal o'r cyfnodau cynharach er y gallai perchnogaeth tir fod wedi newid.

5.5.2. O ran perchnogaeth, mae Pierce yn awgrymu 'Llan-non provides what he saw as a typical bond Settlement'[12], sef anheddiad lle roedd gweithwyr wedi'u clymu i'r tir. Fodd bynnag, mae dadl ynghylch maint cymunedau taeog a sut roeddent yn rhan o gymdeithas Gymreig yr Oesoedd Canol cynnar[13].

5.5.3. Mae'n bosibl bod eglwys gynnar o darddiad Celtaidd yn y man lle y codwyd Eglwys Sant Ffraed yn ddiweddarach yn yr Oesoedd Canol.

5.6. Oesoedd Canol Uchel 1000 – 1200 OC

5.6.1. Rhwng 1000 a 1200 OC mae enghreifftiau o gofnodion ysgrifenedig o 'Llansanfrayde' a'i heglwys i'w gweld. Rhoddwyd tir yn Llansantffraed i farchogion Sant Ioan/Slebeche, Ystrad Fflur ac Esgobaeth Tyddewi gan Roger de Clare yn 1158, a gadarnhawyd yn ddiweddarach gan yr Arglwydd Rhys ap Gruffudd yn y 13eg ganrif. Yn amlwg roedd yn cael ei ffermio yn ôl system caeau agored ar yr adeg hon. Ni wyddys am berchnogaeth tir cyn y cyfnod hwn, ond gan iddo gael ei roi gan Roger de Clare gellir casglu ei fod o dan reolaeth dywysogaidd cyn hyn ac yn cael ei reoli yn unol â chyfreithiau Hywel Dda. Yn ystod y cyfnod hwn y codwyd yr eglwys ond y cyfan sydd ar ôl o'r cyfnod hwn yw'r bedyddfaen. Rhaid nodi bod y tŵr yn dyddio o'r 14eg ganrif ac ailadeiladwyd y brif eglwys yn 1839 gan David Francis o Lanon.

5.7. Oesoedd Canol Diweddar 1200 – 1500 OC

5.7.1. O 1200 i 1500 OC mae'r system caeau agored yn parhau. Cofnodir y lleiniau fel rhai sy'n perthyn i Esgobaeth Tyddewi fel rhodd gan Edward I yn y 13eg ganrif. [14] Bu cyfnodau o aflonyddwch, concwest a gwrthryfel, gyda Cheredigion yn llwybr

[12] Dodgeshon, R.A. "Early society and economy". *Cardiganshire County History,* Vol 1: From the Earliest Times to the Coming of the Normans, golygwyd gan D.P Kirkby, J.L Davies, Ieuan Gwynedd Jones, Gwasg Prifysgol Cymru, 2001 td.351.
[13] Dodgeshon, R.A. "Early society and economy" td.351.
[14] Morgan, Gerald. "Agriculture." td. 35-64.

drwodd ar gyfer rhyfeloedd yn y gogledd a'r de, ochr yn ochr â chyfnodau o bla a rhyfel tramor. Mae'n bosibl bod trefniadaeth a pherchnogaeth tir dan ddylanwad Arglwyddi Gororau Lloegr gyda natur etifeddiaeth yn newid o ddosbarthu ymhlith etifeddion (gavelkind) i'r mab cyntaf yn unig yn etifeddu (primogeniture). Fodd bynnag, roedd Morfa Esgob yn dal i fod o dan reolaeth yr eglwys gyda thir i'r de ym Morfa Mawr yn ddaliadaeth tir (grange) Ystrad Fflur.[15] Mae'n bosib bod Sistersiaid Ystrad Fflur wedi adeiladu trapiau pysgod ychwanegol yma ond nid yw unrhyw dystiolaeth ddogfennol wedi goroesi o Ystrad Fflur gyda manylion am Lansantffraed.[16]

5.7.2. Drwy gydol yr Oesoedd Canol uchel/diweddar byddai'r tir wedi cael ei weithio gan daeogion oedd yn gysylltiedig â'r tir. Nid ydym yn siŵr pryd, pam na sut y newidiodd hyn i berchnogaeth breifat seciwlar i ffwrdd o'r eglwys. [17]

5.8. Ôl-ganoloesol

5.8.1. Mae'r cyfnod ôl-ganoloesol o'r 16eg i'r 18fed ganrif yn cael ei ddominyddu gan y ddau brif ddigwyddiad a newidiodd hanes cynllunio tir amaethyddol:

- Diddymu'r mynachlogydd yn 1536; a
- Dechrau amgáu caeau agored a thir comin.

5.8.2. Mae'n bosibl bod diddymu'r mynachlogydd wedi arwain at newid mawr yn rheolaeth a pherchnogaeth yr ardal o leiniau a'r tir cyfagos, er efallai nad oedd hyn wedi arwain at lawer o newid yn y dulliau ffermio eu hunain na sut olwg oedd ar y lleiniau. Roedd Ystrad Fflur yn berchen ar dir yn yr ardal hon ac er mai Esgob Tyddewi oedd yn berchen ar Morfa Esgob, gallai'r diddymu fod wedi arwain at

[15] Llyfr Du Tyddewi: Llyfr Du Tyddewi – Archifau a Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. https://archives.library.wales/index.php/black-book-of-st-davids

[16] Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.
Jones, Caroline Charles. *Jones, Frances. Historic Cardiganshire Homes and their families*. Brawdy Books, Sir Benfro, 2000.

[17] Austin, David, and Jemma Bezant. "The Medieval Landscapes of Cardiganshire."
'We suggest that the dispensed farmscape of medieval and later Cardiganshire is one of deep antiquity and continuity'

diroedd cyfagos yn newid dwylo i berchnogaeth breifat neu'r goron, gan hyrwyddo newid. Trafodir y mater hwn o ddiddymu a'i effeithiau gan Morgan ac fe'i cefnogir ymhellach gan Valour Ecclesiasticus 1535 a Suppression Papers 1540, er nad yw llawer o dystiolaeth berthnasol wedi goroesi.[18] [19]

5.8.3. Gyda dyfodiad cau tir dechreuodd caeau agored canoloesol ddiflannu, ac mae'r broses hon yn helpu i esbonio'r patrwm modern o berchnogaeth lleiniau a diffyg safleoedd cymharol sydd wedi goroesi ar draws Cymru a'r DU.

5.8.4. Yr unig adeileddau heblaw am yr eglwys sy'n dal i fodoli o ddechrau'r cyfnod ôl-ganoloesol yw olion y Neuadd yn Llanon fel y manylir gan Richard Suggett ac y cyfeirir atynt yn Ewyllys David Griffith ap Ieuan o Lansaffraid yn 1610.[20] Fodd bynnag, mae hyn y tu allan i'r Ardal Gadwraeth bresennol, er bod tystiolaeth archaeolegol wedi dangos bodolaeth ffermydd a melinau ôl-ganoloesol yn yr ardal.

5.9. 18fed a 19eg Ganrif

5.9.1. Yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif gwelwn newid dramatig yn hunaniaeth ac arferion gweithio Llanon a Llansantffraed. Gellir priodoli hyn yn rhannol i gau tir, gyda 'Llanbadarn Trefeglwys, Llanrhystud Haminiog, Llansantffraed, a Cilcennin' y cyntaf yn y sir i wynebu Deddf Cau Tir 1812 yn ogystal â chynnydd mewn diwydiannu oedd wedi sbarduno mwy o dai a thwf gwahanol fathau o gyflogaeth.[21]

---

[18] Morgan, Gerald. "Agriculture." td. 35-64.
'One of the assumptions has been that the imposition of the grange overrode all previous tenancy arrangements and that , in some cases, it even led the evictions... in the case of strata florida the issue of granges is compounded by the dearth of contemporary medieval documents and our heavy reliance on early dissolution rentals for data on their extent and economic organisation'

[19] Austin, David, and Jemma Bezant. "The Medieval Landscapes of Cardiganshire." td. 1-34.
'The valour ecclesiasticus of 1535 and the suppression papers of 1540 Summarize the income from what by then were called granges'

[20] Suggett, Richard. "Medieval Dwellings and Their Successors." *Cardiganshire County History Volume 2: Medieval and Early Modern Cardiganshire*, golygwyd gan Richard Suggett et al., rhifyn 1af, Gwasg Prifysgol Cymru, 2019, td. 111-74. P.145. 'The plan type and detail suggest a building date in the earlier part of the 16thc'.

[21] Lewis, W.J. 'A Disturbance on Llanrhystud Mountain', Ceredigion, Cyfrol IV, td.312.

5.9.2. Yn ystod y Chwyldro Diwydiannol daeth y diwydiannau gwlân bwthyn, calch ac adeiladu llongau yn bwysig ar draws Ceredigion, ac yn enwedig felly yn yr ardal hon. Mae'n bosib bod arallgyfeirio masnach a diwydiant lleol wedi arwain at lai o ddibyniaeth ar amaethyddiaeth a gallai fod yn rheswm dros oroesiad y lleiniau ar hyd y canrifoedd.

5.9.3. Arweiniodd y cynnydd yn y diwydiant adeiladu llongau at amrywiaeth o grefftau yn ogystal ag addysg ac ysgolion, gan gynnwys Ysgol Forwrol a sefydlwyd gan y Capten John Evans. Mae hyn i gyd wedi arwain at dreftadaeth forwrol gryf sy'n cael ei hadlewyrchu gan ffurf adeiledig gwerinol yr ardal. At hynny, roedd lleoliad yr ardal a'i pherthynas â'r môr yn golygu bod cyfle i allfudo, gyda phobl yn gadael ar longau yn y 19eg ganrif am America yn ystod cyfnodau o galedi.

5.9.4. Mae bythynnod gwerinol traddodiadol o'r cyfnod hwn wedi troi'n symbol o gymeriad hanesyddol Llansantffraed ac maent wedi'u grwpio gyda'i gilydd ar hyd y ffordd i Morfa Esgob ac wrth ymyl Eglwys Sant Ffraed. Y bythynnod hyn sy'n sail i hunaniaeth yr Ardal Gadwraeth, ac maent yn nodweddu'r ardal fel pentref pysgota arfordirol Cymreig a lleoliad adeiladu llongau.[22] Gellir gweld tai unnos eraill y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ac wedi'u lledaenu ar draws Llanon, e.e. ar y briffordd ger Afon Peris yn ogystal â'r un sydd wedi'i warchod gan Amgueddfa Ceredigion.

5.9.5. Roedd datblygiad y tu allan i'r Ardal Gadwraeth yn ardal ehangach Llansantffraed a Llanon wedi dwysau yn ystod y 19eg ganrif fel y dangosir gan arddulliau'r ffurf adeiledig y gellir eu gweld ar hyd Stryd yr Eglwys a'r briffordd.

---

[22] Gweler Cofnodion Teulu Harries, https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&ved=2ahUKEwjBr4S9oI-QAxUia0EAHRbAIoYQFnoECBgQAQ&url=http%3A%2F%2Fharriesfamilyhistory.co.uk%2Fhistory.html&usg=AOvVaw1mqMe6e_wnINvltYv-U4Iw&opi=89978449.

Gweler Geraint Jenkins. Jenkins, J.G. *Maritime Heritage: The Ships and Seamen of Southern Ceredigion*. Gomer,1982. Jenkins, J.G. 'Welsh Ships and Sailing Men'. Gwasg Carreg Gwalch, 2006.

5.9.6. Mae bodolaeth tollborth o 1770, a wnaed yn enwog gan derfysgoedd y tollau yn 1816 a therfysgoedd Rebecca yn 1844 pan gafodd ei ddinistrio, ochr yn ochr â gwelliannau dilynol i'r seilwaith ffyrdd yn dangos twf diwydiant megis cynhyrchu calch a gafodd ei ddefnyddio mewn amaethyddiaeth. Gellir gweld enghreifftiau o hyn i'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth lle mae odynau, a ddynodwyd yn Henebion Cofrestredig, yn bodoli. Gallai cyflwyno tollborth a seilwaith ac anheddau ychwanegol ddangos bod y datblygiadau hyn yn y 19eg ganrif wedi disodli adeiladau cynharach oedd yn cael eu defnyddio am ganrifoedd cyn hynny.

5.9.7. Mewn perthynas â Morfa Esgob, mae'r Mapiau Degwm yn dangos bod tirfeddianwyr preifat yn berchen ar y lleiniau, e.e. William Davies Ysw. o Allt-llwyd, Ann Davies, ac Evan Evans ar yr adeg hon. Roedd cae agored yn dal i fodoli gydag ychydig o gyfuniadau a oedd yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu ei ragflaenydd hanesyddol. Er y byddai disgwyl i ystadau lleol mawr fel Mynachty a Trawscoed ddal y rhan fwyaf o'r lleiniau, ac mae'n wir bod William Davies Ysw. o Allt-llwyd yn dal tiroedd yma fel y nodir yn Return of Owners of Land 1873 a'r Mapiau Degwm, roedd llu o dirfeddianwyr. Mae'r Map Degwm hefyd yn dangos bod y tir yn cael ei brydlesu'n bennaf i ffermwyr tenant oedd yn gweithio'r tir. I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio tir a galwedigaethau gweler gwaith Thomas.[23]

5.9.8. Mae tystiolaeth ddogfennol o gynllun Morfa Esgob ar ei gryfaf yn y 19eg ganrif, gyda Mapiau Degwm, mapiau Arolwg Ordnans a mapiau ystadau i gyd yn cynorthwyo ein dealltwriaeth o esblygiad yr ardal. Yn ogystal, mae cynlluniau D. Saunders Davies Ysw. o 1833: 'A map of different slangs on Morfa-yr-Escob in the parish of Llan St Ffraed' a 'the property of William Davies Esq' a fapiwyd ac a arolygwyd gan WM Morgan a Davies yn 1825 yn rhoi darlun cliriach i ni o sut olwg

[23] Thomas, Spencer. "Land Occupation, Ownership, And Utilisation in the parish of Llansantffraid". *Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society*, Cyfrol 3, rhif 2, 1957, td.124-155.

Thomas, Spencer. "The Enumerators' Returns as a source for a period Picture of the Parish of Llansantffraid 1841-1851".*Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society*, Cyfrol 4, rhifau 1-4, 1963, td.408-421.

oedd ar y system caeau agored yn y ganrif hon, yn fwy felly nag unrhyw gyfnod blaenorol.

5.10. 20fed Ganrif

5.10.1. Yn ystod yr 20fed ganrif, newidiodd dulliau cynhyrchu ffermio yn ddramatig oherwydd sawl ffactor megis gwerthu darnau mawr o dir o'r ystadau yn y 1930au, yr angen i gynhyrchu mwy o fwyd yn ystod y rhyfeloedd byd, a chyflwyno pŵer tractor ar raddfa eang ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

5.10.2. Yn wahanol i ardaloedd eraill yn y DU, nid yw dulliau ffermio newydd megis aredig modern gyda thractor a allai fod wedi cael gwared ar olion archaeolegol ffermio canoloesol wedi digwydd ar Morfa Esgob oherwydd mynediad anodd. Yn ogystal, nid oedd perchnogaeth a chyfuno caeau wedi achosi newid mawr i'r lleiniau. Twf tai ers 1953, fel y dangosir trwy gymharu mapiau'r Arolwg Ordnans â'r Map Degwm isod, oedd wedi bygwth y lleiniau.

5.10.3. Gwelwyd yr ymledu mwyaf ar y lleiniau sy'n weddill yn ystod y cyfnod hwn, gyda datblygiad y byngalos yn James Close a'r cae chwarae i'r de o Heol-yr-Esgob. Mae'r map modern bellach yn gwyro o'r hyn a ddangoswyd ganrif ynghynt. Fodd bynnag, er gwaethaf newidiadau i bentrefi Llansantffraed a Llanon ers dechrau'r 19eg ganrif, mae rhan o'r lleiniau gwreiddiol wedi cadw eu tarddiad a'u nodweddion hanesyddol.

6. Mapio Hanesyddol

6.1. Trosolwg

6.1.1. Mae sawl ffynhonnell allweddol yn enwi Llansantffraed dros y blynyddoedd. Er gwaethaf tystiolaeth o weithgarwch Rhufeinig ar draws Ceredigion fel y manylir gan J.L Davies, nid oes unrhyw fapiau y gwyddys amdanynt o'r cyfnod Rhufeinig ar wahân i Geographia Ptolemy nad yw'n ddigon manwl na chywir i ddangos Llansantffraed.[24]

6.1.2. Mae'n bwysig nodi mai dim ond o'r 16eg ganrif ymlaen y mae mapio cliriach a mwy cywir o Brydain ar gael. Nid yw mapio canoloesol ychydig yn gynharach, gan gynnwys yr un a gynhyrchwyd gan Gerallt Gymro megis Totius Kambraie Mappa yn y 13eg ganrif a 'The Gough Map' Richard de Bello yn y 14eg ganrif yn ddigon manwl i dangos Llansantffraed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dyddio bodolaeth Llansantffraed, ond mae'n cyfyngu ar ein gallu i ddeall datblygiad yr anheddiad dros gyfnod hanesyddol hirach. I'r gwrthwyneb, mae dehongliad modern Rees o Gymru'r 14eg ganrif yn fwy manwl ac yn nodi Llansantffraed yn ystod y cyfnod hwn.

6.1.3. Nodir Llansantffraed ar y mapiau hanesyddol canlynol:

- Dangosir 'Llansanfrayde' ar fap Saxton yn 1579 ond dim ond eicon eglwys sy'n cael ei nodi.
- Dangosir 'Llansanfrayde' ar fap Speede yn 1610 ond dim ond eicon eglwys sy'n cael ei nodi. Mae wedi'i gofnodi fel anheddiad sydd wedi'i leoli o fewn cantref 'Llanylar'.

[24] Davies, J.L. "The Roman Period". td. 276-317.

- Dangosir 'Llansanfrayde' ar fap J. Blaeu o Sir Aberteifi yn 1648 ond dim ond eicon eglwys sy'n cael ei nodi.

- Mae 'The Principality of Wales Exactly Described' gan Thomas Taylor yn 1718 yn nodi 'Llansantffraid' ar y ffordd arfordirol gyda dwy ffordd sy'n mynd i'r tir yn arwain ohoni.

- Mae 'Cardigan of 1803' gan Joseph Singer yn nodi Llanon, yr adeiladau ar hyd y brif ffordd arfordirol a 'Llansantffraid'.

- Mae Mapiau a Dosraniadau Degwm Cymru 1841 oedd yn ganlyniad i Ddeddf Cyfnewidiad y Degwm 1836, yn darparu'r manylion mwyaf am yr anheddiad ac yn caniatáu i ni wneud cymariaethau ac arsylwadau ar batrymau anheddu dros y ganrif nesaf yn erbyn mapio ffynhonnell, megis mapiau cynnar yr Arolwg Ordnans a'u cyfres Mapiau Defnydd Tir o 1925-1948.

- Mae Map Arolwg Ordnans 1886 yn dangos dechrau datblygiad Llanon a Llansantffraed ac yn edrych yn debyg iawn i'r ardal bresennol, ar wahân i ardal y lleiniau.

- Mae Map Arolwg Ordnans 1953 yn dangos na fu llawer o newid i'r ardal o'i gymharu â map 1886.

6.1.4. I gloi, ni all mapio hanesyddol o Gymru cyn y 19eg ganrif roi darlun manwl i ni o anheddiad Llansantffraed, dim ond tystiolaeth o fodolaeth yr anheddiad. Mae'r symbolau a ddefnyddir i adnabod yr anheddiad a dewis y cartograffydd i'w gynnwys yn ei fapiau yn cyfleu ei arwyddocâd.

6.1.5. Ceir gwell dealltwriaeth o ddatblygiad yr ardal cyn y 19eg ganrif o gofnodion ysgrifenedig megis ysgrifau teithio Leland, Barber a Malkin. Mae'r rhain yn rhoi gwell dehongliad o faint a chymeriad cyffredinol Llansantffraed.

6.1.6. Mae'n amlwg bod arddull bensaernïol anheddiad Llansantffraed wedi newid dros y canrifoedd, gyda'r rhan fwyaf o'r datblygu yn digwydd yn y 19eg ganrif. Mae hyn

i'w weld yn yr adeiladau o'r cyfnod hwn sy'n dal i sefyll heddiw. Heb ymchwil archaeolegol pellach mae'n anodd gwybod maint, patrwm a nifer yr aneddiadau cynharach. Fodd bynnag, gallwn nodi o fapio bod yr ymledu mwyaf amlwg ar asedau hanesyddol, megis y system caeau agored ganoloesol, wedi digwydd ers y 1950au.

Ffigur 4: Mapiau Hanesyddol yn dangos Llansantffraed

7. Dadansoddiad Gofodol


7.1. Cyflwyniad

7.1.1. Er ei bod yn gymharol fach, gellir rhannu Ardal Gadwraeth Llansantffraed yn dair ardal wahanol, pob un yn cynnwys nodweddion amrywiol, sef:

- Sant Ffraed;
- Heol-yr-Esgob; a
- Morfa Esgob

7.1.2. Mae'r ardaloedd cymeriad hyn wedi cael eu nodi trwy asesiad o'u nodweddion presennol a ddisgrifir yn fanwl isod. Dangosir maint yr ardaloedd cymeriad yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Map o'r Ardaloedd Cymeriad



7.2. Ardal Gymeriad Sant Ffraed

7.2.1. Mae'r Ardal Gymeriad hon yn ffurfio rhan fwyaf gogleddol yr Ardal Gadwraeth a dyma'r unig ran sydd wedi'i lleoli i'r gogledd o Afon Peris. Gellir ei chyrraedd trwy'r bont o Heol-yr-Esgob, ac mae'r llwybr yn parhau ar hyd ffin orllewinol yr Ardal Gadwraeth lle mae'n arwain yn y pen draw at lwybr cyhoeddus glaswelltog sy'n ffurfio rhan o Lwybr Arfordir Cymru.

7.2.2. I'r de o'r Ardal Gymeriad mae Afon Peris gyda choed ar bob ochr sy'n ffurfio ffin naturiol rhwng Ardal Gymeriad Sant Ffraed ac Ardal Gymeriad Heol-yr-Esgob. I'r gogledd a'r dwyrain, mae'r fynwent yn troi'n gaeau amaethyddol gyda'r wal derfyn gerrig yn nodi ymyl yr Ardal Gymeriad.

7.2.3. Mae'r golygfeydd o'r ardal o dir amaethyddol yn bennaf. Mae hwn ar ei fwyaf eang wrth edrych i'r gogledd a'r dwyrain lle mae'r tir, wedi'i rannu gan wrychoedd ac yn cynnwys ambell i adeilad amaethyddol, yn codi. Er bod tir amaethyddol yn ffinio'r Ardal Gymeriad i'r gorllewin mae'n eithaf gwastad ac yn cynnig golygfeydd o Fae Ceredigion.

7.2.4. Mae'r golygfeydd i'r de braidd yn gyfyngedig oherwydd y gorchudd coed helaeth ar hyd Afon Peris. Mae bryniau i'w gweld uwchben y coed a gellir gweld cipolwg o'r pentref trwy'r dail weithiau. Fodd bynnag, mae'r bont yn darparu agoriad sy'n datgelu mwy o'r pentref gydag anheddau cerrig traddodiadol yn dod i'r golwg. Mae presenoldeb byngalos modern yn y pellter yn tanseilio hyn ychydig yn unig.

7.2.5. Yr adeiledd mwyaf amlwg yn yr Ardal Gymeriad yw Eglwys Sant Ffraed sy'n adeilad rhestredig Gradd II*. Wedi'i hadeiladu o gerrig rwbel leol, mae'r eglwys yn cynnwys corff tair bae a changell gyda thŵr tri llawr y gellir ei weld o'r Ardal Gadwraeth a'r cyffiniau.

7.2.6. Yn hanesyddol, mae'n debyg bod yr eglwys yn ymestyn dros o leiaf 1,300 o flynyddoedd, gan ymgorffori hanesion bywyd unrhyw beth o bedwar i chwe adeilad a godwyd yn olynol ar y safle. Ailadeiladwyd yr eglwys yn llwyr, ac eithrio'r tŵr, rhwng 1839 a 1841 gan David Francis, Llanon, yn nhraddodiad y tŷ

pregethu.[25] Credir bod y tŵr yn dyddio o'r 14eg ganrif ond cafodd ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol yn 1994.

7.2.7. Mae cladin llechi Caernarfon crog anarferol ar wal ddeheuol yr eglwys yn darparu amddiffyniad rhag y gwyntoedd de-orllewinol sy'n ysgubo ar draws lleiniau gwastad Morfa Esgob ac sy'n tarddu allan yng Nghefnfor yr Iwerydd. Gellir gweld y cladin llechi hwn ar dai ac adeiladau eraill mewn mannau eraill yn ardal ehangach Llansantffraed a Llanon. Adnewyddwyd hwn hefyd yn 1994.[26]

7.2.8. Saif yr eglwys o fewn mynwent sydd wedi'i diffinio gan derfyn cromlinog gydag un wal derfyn syth ar yr ochr ddwyreiniol. Mae'r terfyn hwn yn cynnwys wal gerrig, draddodiadol ei golwg, gyda gatiau metel ar hyd yr ochr orllewinol gyferbyn â'r fynedfa i dŵr yr eglwys. Yn arwain at y drws, o'r gatiau, mae llwybr cerrig mân wedi'i osod yn gain sy'n parhau i fod yr enghraifft orau o'r hyn a fyddai wedi bod yn llwybrau helaeth ar un adeg. Gellir dod o hyd i eraill o amgylch y pentref, y tu allan i dai a hyd yn oed yn y lle tân y tu mewn i dai.[27]


7.2.9. Fel y rhan fwyaf o fynwentydd eglwysi, mae ei ddefnydd fel mynwent gysegredig yn golygu bod y lle agored yn cael ei nodweddu gan nifer o gerrig beddi a henebion sy'n ymddangos hwnt ac yma i'r gogledd a'r de o'r eglwys ond wedi'u halinio mewn modd llinellog anhyblyg yn gyfochrog â'r wal derfyn yn y dwyrain. Mae rhai o'r cerrig beddi hynaf wedi'u gosod ar y waliau allanol dwyreiniol a deheuol ac mae llawer yn tystio i genedlaethau o ddynion lleol a ddaeth yn forwyr. Mae hyn yn atgyfnerthu treftadaeth adeiladu llongau a morwrol yr ardal.[28]

7.2.10. Wedi'i leoli rhyw 5 metr i'r de-orllewin o ddrws yr eglwys mae Clostir Morgan sy'n adeiledd rhestredig Gradd II. Mae'r clostir 3 metr wrth 5 metr gyda rheiliau haearn bwrw addurnedig gyda chledrau wrn a therfyniadau pabi yn gartref i bum

[25] Cymdeithas Hanes Llansanffraed: Eglwys Llansantffraed: https://www.llanon.org.uk/jimweb/churchhome.HTM
[26] Cymdeithas Hanes Llansanffraed: Eglwys Llansantffraed: https://www.llanon.org.uk/jimweb/churchhome.HTM
[27] Cymdeithas Hanes Llansanffraed: https://www.llanon.org.uk/joyceweb/histsochome.htm
[28] Cymdeithas Hanes Llansanffraed: Eglwys Llansantffraed: https://www.llanon.org.uk/jimweb/churchhome.HTM

cofeb llechi wedi'u gosod yn y llawr a dau gofeb marmor gwyn, un ar ffurf pedestal ac wrn ac un arall ar ffurf croes ar bedestal a sylfaen marmor llwyd.[29] Cofebau David Morgan (1814-1882) a'i deulu o Alltlwyd yw'r rhain. Yn warden eglwys diwyd, Morgan oedd gweithredwr olaf Odynnau Calch Craiglas sydd i'w gweld ar hyd yr arfordir tuag at Lanrhystud, a hefyd y bragwr olaf a'r unig fragwr mae'n debyg a fu'n gweithredu o'r hyn sydd bellach yn cael ei adnabod fel Plas Morfa.[30]

[29] Cadw: Adroddiad llawn ar gyfer adeiladau rhestredig, Clostir Morgan yn Eglwys Sant Ffraed. https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=en&id=17885 .
[30] Cymdeithas Hanes Llansantffraed: Eglwys Llansantffraed: https://www.llanon.org.uk/jimweb/churchhome.HTM



Ffigur 6: Tŵr Eglwys Sant Ffraed




Ffigur 7: Cladin ar Eglwys Sant Ffraed



Ffigur 8: Llwybr at ddrws Eglwys Sant Ffraed




Ffigur 9: Wal derfyn Eglwys Sant Ffraed




Ffigur 10: Clostir Morgan



Ffigur 11: Pont dros Afon Peris



Ffigur 12: Cerrig beddi mewn llinell



Ffigur 13: Golygfa i'r gogledd-ddwyrain o Eglwys Sant Ffraed



Ffigur 14: Golygfa i'r gorllewin o Eglwys Sant Ffraed

7.3. Ardal Gymeriad Heol-yr-Esgob

7.3.1. Mae'r ardal hon yn cwmpasu craidd adeiledig hanesyddol Llansantffraed a ddatblygodd mewn modd llinellog ar hyd Heol-yr-Esgob, lôn gul a throellog sy'n barhad o Stryd-yr-Eglwys o'r dwyrain, ac yn arwain yn y pen draw at leiniau Morfa Esgob a Bae Ceredigion i'r gorllewin.

7.3.2. Mae'r Ardal Gymeriad hon yn wahanol yn weledol i'w chymdogion. Mae hyn yn amlwg trwy'r newid sydyn o amgylchedd agored a gwyrdd Stryd-yr-Eglwys a'r datblygiad modern mewn ambell i fan ar hyd ei ffryntiad i ardal Heol-yr-Esgob sydd wedi'i hamgáu a'i datblygu'n ddwys a'i nodweddu gan ei hanheddau cerrig gwerinol unllawr.

7.3.3. Mae'r anheddau cerrig gwerinol yn allweddol i hunaniaeth arbennig yr Ardal Gymeriad. Er bod enghreifftiau o anheddau tebyg i'w gweld yn Llanon, dyma'r ardal lle maent wedi'u crynhoi'n bennaf yn Llansantffraed. Credir bod y bythynnod yn tarddu o'r 18fed a'r 19eg ganrif ac roedd y bobl oedd yn byw ynddynt yn gysylltiedig â thraddodiad morwrol yr ardal.

7.3.4. Mae'r bythynnod, ar y cyfan, yn unllawr gyda thoeau talcen. Maent wedi'u paentio'n wyn i raddau helaeth ond mae'r garreg wedi'i adael heb ei orchuddio weithiau, e.e. ar ystlyslun, a gellir ei weld o'r stryd. Yn aml, mae hyn yn cael ei ategu gan orffeniadau lliwgar ar nodweddion megis drysau ffrynt a chaeadau ffenestri.

7.3.5. Mae ychydig o eiddo preswyl o gyfnod diweddarach wedi datblygu yn yr Ardal Gymeriad. Mae rhai o'r rhain yn eiddo deulawr gyda waliau wedi'u rendro'n llyfn fel arfer, ac yn cwmpasu eiddo teras ac eiddo ar wahân. Un arbennig i'w nodi yw Convoy, annedd ar wahân arddull Sioraidd wedi'i osod yn ôl o'r ffordd gyda ffasâd cymesur dymunol. Mae plac uwchben y drws yn nodi'r dyddiad 1876.

7.3.6. O ran triniaethau ffiniau, mae defnyddio cerrig rwbel traddodiadol unwaith eto'n gyffredin. Mae'r waliau cerrig hyn, sydd yn aml wedi'u paentio'n wyn gyda choed a llwyni i wella preifatrwydd, yn leinio'r stryd ac yn darparu llinell glir rhwng

mannau cyhoeddus a phreifat. Mae'r gwahaniaeth hwn yn cael ei golli mewn mannau lle mae triniaethau ffiniau ar goll ac mae tarmac wedi'i osod i ddarparu ar gyfer lle parcio oddi ar y stryd. Er mai tarmac yw'r prif ddeunydd a ddefnyddir ar gyfer arwynebu, mae enghreifftiau o ddeunyddiau eraill gan gynnwys cerrig coblog y tu allan i Pen-y-Banc a Brig-y-Don.

7.3.7. Gyferbyn â'r llwybr cerrig coblog hwn mae rhes fach o dri thŷ. Unwaith eto mae'r anheddau hyn wedi'u rendro a'u paentio'n wyn ond wedi'u cyfeirio o'r gogledd i'r de ar hyd lôn fach oddi ar Heol-yr-Esgob. Mae'r lôn ar wahân hon yn arwain at ardal â llystyfiant trwchus ac mae mynediad yn amlwg dim ond trwy arwydd llwybr troed cyhoeddus bach. Mae'r lôn droellog hon yn mynd heibio Cadwgan ac yn y pen draw yn agor wrth gyffordd Heol-yr-Esgob, Stryd-yr-Eglwys a James Close.

7.3.8. Mae'r agoriad wedi'i nodi gan ddwy annedd ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd. Mae un eiddo, Lucerne, yn fyngalo o'r 20fed ganrif sydd wedi'i leoli y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth. Mae'r eiddo hwn yn rhan o James Close, datblygiad tai modern sydd wedi ymledu'n ddwfn i hen lain. Fodd bynnag, mae'r annedd arall, Derwent Dale, i'w weld yn fwy traddodiadol ac yn eiddo deulawr gyda tho llethr di-dor (catslide). Mae wedi'i amgáu gan lystyfiant a wal derfyn gerrig, ond gellir cael mynediad iddo o Heol-yr-Esgob.

7.3.9. Mae culni Heol-yr-Esgob ac agosrwydd datblygiadau i'r ffordd oherwydd y diffyg ffryntiadau yn hanesyddol yn rhoi ymdeimlad caeedig a phersonol i'r ardal. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan natur droellog Heol-yr-Esgob a'r coed cyfagos sy'n golygu bod y golygfeydd yn gyfyngedig ac yn bellter byr. Un eithriad i hyn yw tŵr Eglwys Sant Ffraed sy'n sefyll yn uchel uwchben y coed ac yn weladwy wrth edrych i'r gogledd.

7.3.10. Mae'r ymdeimlad o gyfyngiad yn lleihau tua de'r Ardal Gymeriad wrth iddi agor i ddatgelu lleiniau Morfa Esgob i'r de a'r gorllewin a'r fynedfa i Heol Albion i'r dwyrain. Mae'r olaf yn ystad dai arall o'r 20fed ganrif sy'n cynnwys byngalos ac eiddo deulawr ar wahân sydd unwaith eto wedi meddiannu hen lain yn llwyr.


7.3.11. Mae pen deheuol Ardal Gymeriad Heol-yr-Esgob wedi'i ddiffinio gan Tŷ Breuddwyd, byngalo o'r 1970au y mae ei gwrtil i bob golwg yn cwmpasu nifer o hen leiniau sydd wedi'u cyfuno. Nid yw'n amlwg pam y cafodd yr eiddo hwn yn benodol ei gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig o ystyried bod eiddo cyfagos tebyg wedi'u heithrio.



Ffigur 15: Annedd gwerinol



Ffigur 16: Planhigion ar hyd y wal derfyn



Ffigur 17: Llwybr coblog ar hyd Heol-yr-Esgob



Ffigur 18: Annedd o arddull Sioraidd



Ffigur 19: Colled debygol o wal ffin



Ffigur 20: Wal gerrig agored



Ffigur 21: Rhes o dri thŷ



Ffigur 22: Golygfa tua'r gogledd o Heol-yr-Esgob



Ffigur 23: Golygfa tua'r de o Heol-yr-Esgob

7.4. Morfa Esgob

7.4.1. Morfa Esgob yw'r Ardal Gymeriad fwyaf ac mae'n adnabyddus am ei chaeau hir cul sy'n olion 'Rhandir', sef math o ddaliadaeth sy'n dyddio'n ôl i gyfreithiau canoloesol cynnar Hywel Dda.

7.4.2. Ar un adeg roedd Morfa Esgob yn rhan o'r uned weinyddol Rhandir-yr-Esgob. Roedd hwn yn eiddo i'r Esgob ond yn cael ei osod i grŵp o berthnasau (Gwely) oedd â hawliau a dyletswyddau penodol. Roedd y Gwely yn goruchwylio'r taeogion oedd yn gweithio'r tir ac a oedd hefyd â rhai hawliau o dan gyfraith Cymru. Byddai unigolion yn gweithio stribedi gwasgaredig, o'r enw 'lleiniau', oedd heb eu ffensio ond wedi'u gwahanu gan gloddiau pridd isel neu falciau.[31]

7.4.3. Mae goroesiad system gaeau o'r fath yn y rhan hon o Gymru yn hynod o brin gan atgyfnerthu arwyddocâd yr ardal. Er bod llawer o'r lleiniau bellach wedi'u ffensio â physt a gwifren, mae cribau cynnil o dir yn dal i'w gweld. Dyma olion y balciau tywarchen, yr hen ffiniau heb eu ffensio sy'n datgelu rhaniad hanesyddol y tir. Mae'n debyg bod disodli'r balciau hyn â ffensys wedi digwydd oherwydd y newid o ffermio bugeiliol i ffermio âr.

7.4.4. Mae'r defnydd o'r caeau ar gyfer ffermio bugeiliol, pori defaid yn bennaf, yn cynrychioli defnydd cymharol isel sydd wedi galluogi llawer o'r system caeau hanesyddol i oroesi. Fodd bynnag, mae newidiadau eraill mewn defnydd a rheoli tir wedi cyflwyno pwysau ar ei nodweddion archeolegol sydd wedi goroesi. Yn benodol, gall isrannu'r stribedi hanesyddol gan ddefnyddio ffensys gwifren a physt pren achosi aflonyddwch corfforol uniongyrchol i glawdd pridd sydd wedi goroesi. Mae gan y defnydd o stribedi fel rhandiroedd neu berllannau hefyd y potensial i achosi niwed, gan y gall systemau gwreiddiau aflonyddu neu ddinistrio olion archeolegol uwchben ac o dan y ddaear. Fel y nododd Heneb (2026), gall diffyg ymwybyddiaeth o arferion rheoli priodol arwain at ddifrod

[31] Cymdeithas Hanes Llansanffraed: Eglwys Llansantffraed: https://www.llanon.org.uk/joyceweb/Morfa%20Esgob.htm

anfwriadol, gyda phlannu, adeiladu a ffensys pellach yn cyflwyno risg barhaus i gadwraeth y system caeau hanesyddol.

7.4.5. Mae'r ffordd y mae'r tir wedi'i rannu'n golygu bod rhywfaint o amrywiad yn hyd a lled pob llain. Fodd bynnag, maent wedi'u cyfeirio'n bennaf o'r dwyrain i'r gorllewin ac eithrio ychydig o gaeau rhwng James Close a Stryd-yr-Eglwys. Mae'r caeau hyn yn rhedeg o'r gogledd i'r de, yn debyg i'r caeau sydd wedi'u lleoli'n union gerllaw i'r dwyrain sydd heb eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn wedi gadael y caeau yn agored i fygythiad datblygiadau modern fel y dangoswyd mewn gwrandawiadau cynllunio diweddar.

7.4.6. O fewn yr Ardal Gymeriad, mae sawl achos o gyfuno caeau wedi tarfu ar y rhythm dymunol a grëwyd gan raniad hanesyddol y tir. Mae'n debyg bod y cyfuno hwn wedi digwydd o ganlyniad i leiniau cyfagos yn dod o dan yr un berchnogaeth. Un enghraifft amlwg o gyfuno caeau yw'r maes chwaraeon a'r lle chwarae sydd heb eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth gan greu cilfach yng nghanol Morfa Esgob.

7.4.7. Mae'r patrwm a grëwyd trwy rannu'r tir hefyd yn cael ei darfu arno i ryw raddau gan y llwybr glaswelltog sy'n arwain o Heol-yr-Esgob i'r arfordir sy'n torri'n groeslinol ar draws y lleiniau. Fodd bynnag, mae'r llwybr troed hir-sefydlog hwn, ochr yn ochr â'r rhwydwaith arall o lwybrau, yn cynnig golygfeydd eang ar draws y lleiniau agored, Llansantffraed, Eglwys Sant Ffraed, y bryniau cyfagos a Bae Ceredigion.

7.4.8. Mae bregusrwydd y system caeau hanesyddol i erydiad arfordirol yn dod yn arbennig o amlwg ar lefel y traeth. Mae'r ymdeimlad hwn o fregusrwydd yn cael ei atgyfnerthu gan Gynllun Rheoli Traethlin 21, sy'n nodi dull polisi o adlinio wedi'i reoli ar gyfer arfordir Llansantffraed. Mae'r dull hwn yn cynnwys caniatáu i'r arfordir a'r amddiffynfeydd presennol encilio tua'r tir mewn ffordd reoledig, gan arwain o bosibl at golli rhywfaint o dir i'r môr er mwyn sefydlu amddiffyniad mwy cynaliadwy yn y tymor hir.

7.4.9. Er ei fod yn cael ei nodweddu gan ei fod yn agored, mae sawl strwythur sy'n gysylltiedig yn bennaf ag arferion amaethyddol modern, wedi datblygu ar llain

Morfa Esgob. Er bod rhai strwythurau dros dro, er enghraifft twneli poli sy'n ymyrryd ar y cymeriad agored, mae eraill yn fwy parhaol. Mae hyn yn cynnwys cwpl o siediau amaethyddol y gellir eu cyrchu trwy'r rhwydwaith o PROWs. Mae'r strwythurau hyn hefyd yn debygol o fod wedi tarfu ar y ddaear ac wedi tynnu olion y system gaeau wreiddiol (Heneb, 2026).

7.4.10. Nodwedd nodweddiadol y caeau stribed ym Morfa Esgob yw eu siâp 'S' gwrthdroi. Er nad yw'r patrwm hwn o reidrwydd yn amlwg o'r ddaear, gellir ei adnabod yn glir mewn ffotograffiaeth o'r awyr. Mae'r ffurf hon yn nodweddiadol o drin stribedi hanesyddol ac mae'n ganlyniad i dimau ych yn troi'r aradr ar bennau'r stribedi (Historic England, 2018, Heneb, 2026).

7.4.11. O'r dwyrain, mae golygfeydd i'r Ardal Gymeriad wedi'u cyfyngu eto oherwydd y ffordd y mae Llanon wedi datblygu mewn modd llinellog ar hyd yr A487. Fodd bynnag, mae'r ffordd hon yn dringo rhwng Llanon ac Aber-arth gan gynnig golygfeydd o Morfa Esgob wrth edrych i'r gogledd. Golygfan boblogaidd yw'r gilfan lle gellir gweld y lleiniau wedi'u rhwymo gan ddatblygu sydd wedi'i ganoli ger Afon Peris ac Afon Cledan.

7.4.12. Er iddo gael ei nodweddu gan ei natur agored mae sawl adeiledd sy'n gysylltiedig yn bennaf ag arferion amaethyddol modern wedi datblygu ar leiniau Morfa Esgob. Er bod rhai o'r adeileddau yn rhai dros dro, er enghraifft twneli polythen sy'n amharu ar y cymeriad agored, mae eraill yn fwy parhaol. Mae hyn yn cynnwys siediau amaethyddol y gellir eu cyrraedd trwy'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus.



Ffigur 24: Golygfa o gilfan ar yr A487



Ffigur 25: Golygfa o hawl dramwy gyhoeddus



Ffigur 26: Golygfa o'r traeth



Ffigur 27: Balciau / banciau daear isel



Ffigur 28: Ffensys gwifren a physt pren



Ffigur 29: Siediau amaethyddol



Ffigur 30: Golygfa o'r awyr o arfordir Llansantffraed (Heneb, 2025)



Ffigur 31: Golygfa o'r awyr o Forfa Esgob (Heneb, 2025)



Ffigur 32: Golygfa o'r awyr o Forfa Esgob a'r cae chwarae (Heneb, 2025)

8. Cymeriad Pensaernïol

8.1. Cyflwyniad

8.1.1. Er bod Ardal Gadwraeth Llansantffraed wedi'i dynodi'n bennaf oherwydd ei system caeau agored ganoloesol hanesyddol, sy'n oroesiad pwysig a phrin o'r defnydd cynnar o dir amaethyddol, mae presenoldeb cymedrol ond nodedig hefyd o ffurf adeiledig o fewn ei ffiniau. Nodweddir y ffurf adeiledig hon yn bennaf gan fythynnod gwerinol, sydd fel arfer yn gymedrol o ran maint ac wedi'u hadeiladu gyda deunyddiau lleol a thechnegau traddodiadol. Rhyngddynt mae ambell i enghraifft o dai Sioraidd sy'n cyflwyno iaith bensaernïol fwy ffurfiol i gymeriad gwledig a swyddogaethol yr ardal fel arall.

8.1.2. Mae'r cyfansoddiad pensaernïol hwn yn cyferbynnu â'r anheddiad cyfagos Llanon lle mae'r amgylchedd adeiledig yn fwy amrywiol ac yn adlewyrchu llinell amser hanesyddol ehangach. Yn Llanon mae cymysgedd o anheddau Fictoraidd ac Edwardaidd yn ogystal â thai mwy modern, ochr yn ochr ag adeiladau traddodiadol gwerinol ac eiddo Sioraidd. Mae'r amrywiaeth hon yn cyfrannu at strydlun mwy eclectig ac ymdeimlad gwahanol o le o'i gymharu â chymeriad mwy unffurf Llansantffraed.

8.1.3. Mae'r adrannau canlynol yn nodi nodweddion allweddol y ffurf adeiledig o fewn ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth. Cydnabyddir, o ystyried oedran llawer o'r adeileddau, fod nodweddion pensaernïol wedi esblygu dros amser. Yn aml, mae eiddo wedi benthyg elfennau o gyfnodau gwahanol, gan adlewyrchu newid chwaeth, argaeledd deunyddiau, a dylanwad tueddiadau pensaernïol ehangach. Mae'r haenau o arddulliau yn cyfrannu at werth hanesyddol ac esthetig unigryw'r ardal.

8.2. Bythynnod Gwerinol

8.2.1. Y ffurf fwyaf amlwg o adeiladu yn Ardal Gadwraeth Llansantffraed yw'r bwthyn gwerinol traddodiadol. Wedi'u hadeiladu o garreg leol fel arfer, cafodd y

bythynnod hyn eu hadeiladu'n wreiddiol fel anheddau syml ac maent yn adlewyrchu treftadaeth wledig yr ardal. Maent yn adeileddau unllawr yn bennaf, er y gallai llawer ohonynt fod wedi cynnwys lle bach yn y groglofft ar gyfer storio nwyddau neu le cysgu achlysurol. Mae eu ffurf syml, eu defnydd o ddeunyddiau naturiol, a'u dyluniad ymarferol yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad hanesyddol a phensaernïol yr Ardal Gadwraeth.

8.2.2. Mae ffasadau'r bythynnod wedi'u hadeiladu o garreg leol fel arfer, gyda'r rhan fwyaf o enghreifftiau wedi'u gorffen â gwyngalch. Mae hyn yn rhoi arwyneb meddal, anadladwy sy'n addas ar gyfer y ffabrig hanesyddol. Weithiau mae'r bythynnod yn cadw gwaith cerrig heb ei orchuddio, gan gynnig golwg mwy garw a gweadog. Dros amser, mae rhai blaenluniau wedi cael eu newid gyda gorffeniadau rendr llyfn sy'n cyferbynnu â'r arwynebau gwyngalchog neu gerrig gwreiddiol ac yn newid yn gynnil golwg traddodiadol yr adeiladau. Mae rendr llyfn hefyd yn amlwg ar estyniadau diweddarach mewn mannau. Nodwedd gyffredin o'r prif weddlun yw drws canolog gyda ffenestri codi ar y naill ochr a'r llall, gan atgyfnerthu'r cymesuredd syml.

8.2.3. Mae'r drysau canolog o fewn y blaenlun yn cyfrannu at ffasâd gytbwys a chymesur. Fel arfer mae'r drysau hyn yn syml o ran eu dyluniad, wedi'u hadeiladu o baneli pren fertigol sy'n creu estheteg wledig ac oesol. Mae'r cymeriad clasurol yn cael ei wella trwy ddefnyddio lliwiau paent tawel neu ddaearol sy'n cyd-fynd â'r dirwedd naturiol o'u cwmpas. Mae nodweddion metel fel cnocwyr drysau yn ychwanegu dengarwch cyffyrddol, swyddogaethol ac o bosibl yn adlewyrchu crefftwaith lleol. Fel arfer mae'r drysau wedi'u gosod yn ôl ychydig i'r wal, gan greu dyfnder cynnil sy'n ychwanegu at apêl weledol y bythynnod. Weithiau mae fframiau mwy addurniadol i'w gweld o amgylch y fynedfa, fel y gwelir yn Pen-y-Banc a Brig-y-Don, lle mae manylion yn darparu ychydig o addurn heb dynnu oddi ar symlrwydd cyffredinol cymeriad yr adeilad.

8.2.4. Yn aml mae gan y bythynnod drefn ffenestri unigryw wedi'u gosod yn gymesur ar y naill ochr a'r llall i'r drws canolog. Mae hyn yn cyfrannu at eu cymeriad cytbwys a chymedrol. Er mai'r prif weddlun yw'r ffocws, mae rhai bythynnod hefyd yn

cynnwys ffenestri ar yr ystlysluniau. Nodwedd o'r bythynnod hyn yw'r defnydd o ffenestri codi, gyda'r amrywiadau hŷn yn 6 dros 6 ac wedi'u fframio â fframiau pren wedi'u paentio. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai bythynnod wedi gweld newidiadau amhriodol yn cael eu cyflwyno, megis ffenestri bwa UPVC, sy'n tarfu ar yr estheteg draddodiadol ac yn tanseilio cyfanrwydd hanesyddol yr adeiladau hyn. Weithiau mae ffenestri wedi'u gosod uwchben silffoedd ffenestri llechi cadarn, gan adlewyrchu'r defnydd hanesyddol o ddeunyddiau lleol yn ôl pob tebyg. Mewn rhai achosion, mae caeadau panel pren fertigol, wedi'u paentio'n lliwiau gwyrdd neu las, yn ychwanegu atyniad ac ymarferoldeb. Mae linteli hefyd yn amlwg ond maent yn eithaf di-sylw ac yn aml wedi'u paentio'n wyn i gyd-fynd â'r ffasadau gwyngalchog.

8.2.5. Fel arfer mae'r bythynnod traddodiadol yn Llansantffraed yn cynnwys toeau sy'n adlewyrchu pensaernïaeth werinol cefn gwlad Ceredigion. Er bod enghreifftiau o doeau rhychog a gwellt yn bodoli ar adeiladau gwerinol mewn mannau eraill yn Llanon a Cheredigion yn fwy cyffredinol, nodwedd ddiffiniol o Ardal Gadwraeth Llansantffraed yw'r defnydd o lechi Cymreig, deunydd gwydn a lleol sy'n rhoi tôn llwyd tywyll nodedig i'r dirwedd toeau. Mae goleddf y to yn gonfensiynol gymedrol, nid yn serth nac yn fas, gan daro cydbwysedd sy'n addas i hinsawdd y rhanbarth ac ar yr un pryd yn cynnal cymesuredd gweledol cytûn â ffurf y bwthyn codiad isel. Mae llawer o'r bythynnod hyn yn betryal o ran cynllun, gyda phennau talcen sydd yn aml yn cynnwys simneiau cerrig cadarn ar y naill ben a'r llall, gan gyfrannu at gymesuredd ac ymarferoldeb yr adeilad.

8.2.6. Mae'r bythynnod yn adeiladau ar wahân yn bennaf, er bod enghreifftiau o ffurfiau pâr yn bodoli hefyd, gan gyfrannu at gymeriad amrywiol ond cydlynol yr anheddiad. Mae'r adeiladau hyn wedi'u lleoli yn agos at y ffordd fel arfer, gyda'r newid o le cyhoeddus i le preifat wedi'i ddiffinio'n glir gan waliau terfyn cerrig isel, yn aml wedi'u gwyngalchu, neu gan newidiadau cynnil mewn deunyddiau arwyneb. Mae'r cwrtil o amgylch bob bwthyn yn gymedrol o ran maint ar y cyfan ond yn aml mae'n cynnwys coed, llwyni a phlanhigion i wella preifatrwydd a meddalu effaith weledol y ffurf adeiledig o fewn y dirwedd.

8.3. Anheddau Gwerinol Eraill

8.3.1. Yn ogystal â'r bythynnod mae rhes o dair annedd ddeulawr. Mae'r anheddau'n arddangos arddull bensaernïol werinol draddodiadol a welir yn gyffredin mewn lleoliadau gwledig Cymru. Mae ffurf betryal syml ganddynt a tho talcennog sy'n nodweddiadol o adeiladau domestig yn yr ardal.

8.3.2. Mae'r waliau wedi'u rendro a'u paentio'n wyn gan roi golwg lân a disglair. Mae hyn yn cyferbynnu â'r trim du o amgylch ffenestri a drysau un o'r anheddau, dewis arddulliol sy'n ychwanegu diffiniad ac ychydig o ffurfioldeb at ffasâd sydd fel arall yn gymedrol.

8.3.3. Mae'r ffenestri'n alinio'n fertigol ac i'w gweld yn ffenestri codi neu gasment gan gyfrannu at gymesuredd cytbwys yr adeiladau. Yn yr achos hwn nid yw'r drysau wedi'u lleoli'n ganolog ond yn hytrach ar yr ochr. Yn achos un o'r eiddo, mae lleoliad y drws wedi'i newid i agor yn uniongyrchol i'r stryd. Mae hyn yn cyferbynnu â'r ddau eiddo arall lle mae'r drysau wedi'u gosod yn ôl cryn dipyn o fewn agoriadau ar y prif weddlun. Mae'r defnydd o ddrysau rystig sy'n cynnwys paneli pren fertigol wedi'u paentio, fel y gwelir ar eiddo eraill yn yr Ardal Gadwraeth, hefyd wedi parhau yma.

8.3.4. Mae presenoldeb simneiau cerrig yn awgrymu y gallai'r tai fod wedi cael eu gwresogi'n wreiddiol gan leoedd tân, nodwedd sy'n gyson â chartrefi gwledig hŷn. Mae toeau llethr di-dôr wedi'u gorchuddio â llechi ac yn cyd-fynd â'r defnydd hanesyddol o ddeunyddiau lleol ar gyfer gwrthsefyll tywydd. Ymddengys fod newidiadau wedi cael eu gwneud i do un o'r eiddo ar ffurf ffenestri dormer sy'n effeithio ar barhad y llinell toeau.

8.3.5. Mae'r lle o flaen y tai yn fach ac anffurfiol, yn aml wedi'i ddiffinio gan newid cynnil yn yr arwyneb neu, mewn un achos, ffin gerrig fach sy'n ychwanegu at atyniad rystig yr eiddo. Yn y cefn mae'r wal derfyn gerrig fwy ffurfiol sy'n weladwy o'r stryd yn atgyfnerthu'r cymeriad traddodiadol ac yn rhoi ymdeimlad o amgáu a phreifatrwydd. At ei gilydd, mae'r anheddau'n adlewyrchu iaith bensaernïol

gynnil ond llawn cymeriad, wedi'i gwreiddio mewn arferion a deunyddiau adeiladu lleol, er bod newidiadau wedi digwydd dros amser.

8.4. Anheddau Sioraidd

8.4.1. Wedi'u gosod ymhlith yr anheddau traddodiadol gwerinol mae nifer o anheddau Sioraidd deulawr. Mae'r adeiladau hyn yn cyflwyno iaith bensaernïol fwy ffurfiol i'r ardal a nodweddir gan ffasadau cymesur, ffenestri codi, a gweddluniau cymesur. Er eu bod yn wahanol o ran arddull a graddfa, maent yn eistedd yn gyfforddus o fewn y strydlun hanesyddol, gan gyfrannu at gymeriad pensaernïol haenog yr anheddiad ac yn adlewyrchu ei esblygiad graddol dros amser.

8.4.2. Mae'r anheddau Sioraidd yn cyflwyno cymeriad pensaernïol mwy ffurfiol a chaboledig o'i gymharu â'r bythynnod gwerinol cyfagos. Mae'r adeiladau hyn fel arfer yn cynnwys prif weddluniau sy'n wynebu'r ffordd, er eu bod yn aml wedi'u gosod ychydig ymhellach yn ôl, gan greu ymdeimlad mwy bwriadol o ddynesfa. Fel arfer diffinnir y sefyll yn ôl hwn gan waliau terfyn cerrig, a all fod wedi'u gwyngalchu ac weithiau'n cael eu hategu gan reiliau haearn neu dirlunio ysgafn megis gwrychoedd a phlanhigion, gan nodi'n gynnil y newid o'r lle cyhoeddus i'r lle preifat.

8.4.3. Yn bensaernïol, mae'r anheddau wedi'u nodweddu gan eu ffasadau cymesur sy'n adlewyrchu dylanwadau clasurol nodweddiadol y cyfnod Sioraidd. Fel arfer mae'r gweddluniau wedi'u rendro a'u paentio mewn lliwiau tawel, gwyn neu las golau fel arfer, gan gyfrannu at strydlun cynnil a chain.

8.4.4. Fel arfer mae ffenestri yn unedau codi pren chwech dros chwech, wedi'u gosod yn gyfartal ac wedi'u halinio'n fertigol, gan atgyfnerthu cyfansoddiad cytbwys y ffasâd. Mae drysau canolog yn nodwedd ddiffiniol gyda stepen yn aml. Mae drysau wedi'u gosod ychydig yn ôl o'r blaenlun yn aml ac wedi'u fframio gan fframiau addurniadol syml, gan ychwanegu diddordeb pensaernïol cynnil. Fodd bynnag, gellir gweld ychwanegiadau diweddarach fel portshys sy'n tynnu oddi ar gymeriad gwreiddiol a symlrwydd ffryntiadau'r adeiladau.

8.4.5. Mae ffurfiau toeau yn amrywio rhwng talcen slip a thalcennog, ac mae'r ddau ohonynt fel arfer â goleddf isel ac wedi'u gorchuddio â llechi gan gyd-fynd â'r arddull werinol leol. Mae simneiau wedi'u gosod ym mhob pen o'r adeilad ac fel arfer heb eu rendro, gan ddarparu cyferbyniad cynnil i'r waliau llyfn wedi'u rendro ac ychwanegu pwyslais fertigol i linell y to. Mae'r elfennau hyn, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at bresenoldeb pensaernïol cydlynol ac urddasol sy'n ategu'r adeiladau gwerinol mwy cymedrol ac ar yr un pryd yn cyfoethogi cymeriad cyffredinol yr Ardal Gadwraeth.

9. Asedau Hanesyddol Dynodedig

9.1. Cofnodion Hanesyddol

9.1.1. Mae Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol yn darparu gwybodaeth fanwl am yr amgylchedd hanesyddol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gan dynnu ar ddegawdau o ymchwil ac ymchwilio. Wedi'i gynnal gan Heneb: Yr Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru ar ran Gweinidogion Cymru, gellir cyrchu'r cofnodion ar-lein drwy Archwilio ac maent yn cynnwys gwybodaeth am safleoedd hanesyddol, gwaith ymchwilio ac enwau lleoedd hanesyddol. Maent yn ffynhonnell werthfawr o dystiolaeth ar gyfer deall datblygiad archaeolegol a hanesyddol ardal a llywio asesiadau o'r amgylchedd hanesyddol.

9.1.2. Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC), a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), yw'r casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n cynnwys cofnodion o filoedd o safleoedd archeolegol, henebion, adeiladau a safleoedd morwrol, ochr yn ochr â lluniadau, llawysgrifau a ffotograffau. Gellir chwilio am NMRW ar-lein drwy Coflein, sy'n gweithredu fel adnodd gwerthfawr ar gyfer ymchwilio i amgylchedd hanesyddol Cymru.

9.2. Henebion Cofrestredig

9.2.1. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod trwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion.

9.2.2. Rhaid cael Caniatâd Heneb Gofrestredig gan Cadw ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith sy'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol. Bwriad y broses ganiatâd yw gwarchod yr heneb, ei lleoliad a'i nodweddion rhag gwaith ansensitif a allai niweidio ei phwysigrwydd cenedlaethol.

9.2.3. Nid oes unrhyw henebion cofrestredig o fewn Ardal Gadwraeth Llansantffraed. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal trafodaethau â Cadw a Heneb ynghylch y posibilrwydd o gofrestru lleiniau Morfa Esgob.

9.2.4. Yr henebion cofrestredig agosaf yw Odynnau Calch Aberstrincell a Chraiglas a Chlostir Amddiffynedig Pen-y-Castell sydd wedi'u lleoli tuag 1km a 2.6km i'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth.

9.3. Adeiladau Rhestredig

9.3.1. Cofrestru yw'r ffordd y mae adeilad neu adeiledd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn cael ei gydnabod gan y gyfraith trwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae'r term 'adeilad rhestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig adeiladau megis tai, eglwysi neu ysguboriau ond hefyd waliau, cerrig milltir, pontydd, blychau ffôn a llawer o fathau eraill o adeileddau.

9.3.2. Er bod pob adeilad rhestredig o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, cânt eu dosbarthu yn un o dair gradd:

- Gradd I (un) — adeiladau o ddiddordeb eithriadol.
- Gradd II* (dwy seren) — adeiladau pwysig iawn sydd o fwy na diddordeb arbennig.
- Gradd II (dau) — adeiladau o ddiddordeb arbennig sy'n cyfiawnhau pob ymdrech a wneir i'w cadw.

9.3.3. Waeth beth fo'u gradd, mae pob adeilad rhestredig yn cael ei drin yn gyfartal gydag unrhyw newidiadau'n cael eu rheoli trwy'r system gynllunio a'r broses caniatâd adeilad rhestredig. Mae'n drosedd i ddymchwel, newid neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig heb ganiatâd.

9.3.4. Mae dau adeilad rhestredig wedi'u lleoli o fewn Ardal Gadwraeth Llansantffraed, sef:

- Eglwys Sant Ffraed (Cyf.: 9815) – Gradd II*
- Clostir Morgan yn Eglwys Sant Ffraed (Cyf.: 17885) – Gradd II

9.3.5. Mae rhagor o wybodaeth am yr adeiladau rhestredig uchod i'w gweld yn eu disgrifiadau rhestr. Mae'r rhain ar gael ar wefan Cadw.

9.4. Parciau a Gerddi Hanesyddol

9.4.1. Cofrestru yw'r ffordd y mae parc neu ardd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yn cael ei gydnabod gan y gyfraith trwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae'r termau 'parc a gardd hanesyddol gofrestredig' yn eang eu cwmpas ac yn cynnwys nid yn unig tirweddau gwledig a pharciau o amgylch tai gwledig, ond hefyd parciau ceirw, ffermydd model, tirweddau ysbytai, mynwentydd, gerddi tref a pharciau cyhoeddus.

9.4.2. Rheolir newidiadau i barciau a gerddi cofrestredig trwy'r system gynllunio. Nid gorchymyn cadwraeth yw cofrestru, ond ei fwriad yw helpu i reoli newid a gwarchod y parc neu'r ardd, ei leoliad a'i nodweddion rhag gwaith ansensitif a allai niweidio ei ddiddordeb arbennig.

9.4.3. Nid oes unrhyw barciau na gerddi hanesyddol cofrestredig wedi'u lleoli o fewn Ardal Gadwraeth Llansantffraed na'r cyffiniau.

10. Asedau Hanesyddol Heb eu Dynodi

10.1. Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

10.1.1. Mae adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ar y lefel genedlaethol wedi'u gwarchod gan Cadw o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Fodd bynnag, mae llawer o adeiladau hanesyddol eraill nad ydynt yn cyrraedd y trothwy cenedlaethol hwn ond sydd, serch hynny, o bwys lleol. Yn aml mae gan gymunedau lleol feddwl mawr o'r adeiladau hyn am eu cyfraniad at gymeriad ac atgofion lleol. Gall awdurdodau cynllunio ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'.

10.1.2. Cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio yw dewis asedau; fodd bynnag, dylid gwneud hyn gyda chyfranogiad y gymuned. Yna gall awdurdodau cynllunio sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod a'u gwella trwy ddatblygu polisïau CDLl a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

10.1.3. Ar hyn o bryd, nid oes rhestr o adeiladau o bwysigrwydd lleol yng Ngheredigion. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi dechrau gweithio ar nodi adeiladau o bwysigrwydd lleol ac mae hyn yn parhau.

10.1.4. Nid yw diffyg cynnwys adeilad neu adeiledd ar restr leol yn rheswm ynddo'i hun dros roi caniatâd ar gyfer dymchwel neu ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.

11. Cymdeithasau Hanesyddol a Thraddodiadau

11.1. Pobl

11.1.1. Mae gan y ffigurau a'r grwpiau hanesyddol canlynol gysylltiad â'r ardal:

- Yn ôl y sôn ganwyd Santes Non, mam Dewi Sant, yma yn y 5ed ganrif a dyma sut mae pentref Llanon wedi cael ei enw.
- Mae traddodiad bod lleiniau Llanon wedi cael eu rhoi i bysgotwyr gan Sant Dewi ei hun. Mae eraill wedi awgrymu mai Santes Non oedd yn berchen ar y tir yn wreiddiol ac roedd hi wedi'i drosglwyddo i Dewi. (Willis-Bund, 1905, AC,33)'.[32]
- Rhoddodd Rhys ap Gruffydd diroedd yn Llanddewi Aber-arth a Rhandir Llanon i'r Esgob Iorwerth (1215-1229). Daeth y rhan honno o'r tir i gael ei hadnabod fel Morfa Esgob'.[33]
- Dylanwad y Sisteriaid, tiroedd a thrapiau pysgota.
- Prif adeiladwyr llongau: Capten Henry Harries 1851 ger Afon Peris.[34]
- Ysgolion Mordwyo lle bu Capten John Evans yn addysgu.[35]
- David Davies, dyfeisiwr Rhaw Aberaeron neu Raw Aberteifi.

11.2. Traddodiadau

11.2.1. Mae'r traddodiadau canlynol yn gysylltiedig â'r ardal:

[32] Manylion Arolwg, Tirwedd Hanesyddol, Llannon, Ceredigion, 2008-03-05 "LANDMAP Portal (naturalresources.wales)": https://landmap portal.naturalresources.wales/view_survey.php?survey_id=12621.The Land (llanon.org.uk)
[33] Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.
[34] Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.
[35] Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.

- O 1786-1864 adeiladwyd cyfanswm o 57 o longau ym mhlwyf Llansantffraed.[36]
- Ailadeiladwyd Neuadd yr Eglwys yn 1886 gyda'r nenfwd pren yn ôl y sôn wedi'i osod gan adeiladwyr llongau Llansantffraed.[37]
- Llongau masnachu bach olaf – Joanna 1897.[38]
- Ffermio/cynaeafu.
- Byddai plant Llanon yn dadlwytho cargo o'r llongau (traddodiadau morwrol).
- Smyglo.
- Teilwrio.
- Bragu.
- Gwaith gof.
- Twll Twrw a chwedlau sy'n gysylltiedig â'r Eglwys.

[36] Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.
[37] Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.
[38] Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed*.

12. Hanesion Cudd

12.1. Gwaith Archaeolegol Blaenorol

12.1.1. Yn 2023, cynhaliwyd asesiad desg gan ArchaeoDomus mewn cysylltiad â datblygiad arfaethedig ar dir ger Bedwen, Stryd-yr-Fawr, Llanon. Er nad yw'r safle hwn wedi'i leoli o fewn yr Ardal Gadwraeth bresennol, roedd yn cynnwys llain hirsgwar hir a oedd yn rhan o'r system cae agored ehangach. Tynnodd yr asesiad sylw at arwyddocâd y system caeau sydd wedi goroesi ac argymhellodd Arolwg Tirwedd Lefel 2, ynghyd â monitro a chofnodi archaeolegol yn ystod gwaith tir datblygu (Cook, 2023).

12.1.2. Yn 2024, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, a elwir bellach yn Heneb, Arolwg Tirwedd Lefel 2. Daeth hyn i'r casgliad bod llawer o dirwedd Llanon a Llansantffraed wedi aros yn ddigyfnewid o'r ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Murphy a Jenkins, 2024).

12.1.3. Yn 2025/26, cynhaliodd Heneb asesiad gwella amserlennu gyda chymorth grant Cadw o systemau maes agored canoloesol, a oedd yn cynnwys Morfa Esgob yn Llansantffraed. Tynnodd yr astudiaeth ar Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol, Cofnodion Henebion Cenedlaethol, a ffynonellau eilaidd i wella dealltwriaeth o'r mathau hyn o safleoedd archaeolegol ac asesu'r potensial ar gyfer amserlennu gwell.

12.1.4. Tynnodd y gwaith a wnaed gan Heneb sylw at y ffaith bod ymchwiliad archeolegol Morfa Esgob wedi bod yn gyfyngedig, fodd bynnag, mae goroesiad tystiolaeth ddogfennol yn nodedig o ystyried ei chysylltiadau hanesyddol â'r eglwys. Mae hyn yn galluogi ymchwil fanwl i ddatblygiad y system gaeau a'r aneddiadau cyfagos. Mae'r dystiolaeth ddogfennol yn dangos nad oedd y system maes wedi newid fawr ddim yn ystod ei pherchnogaeth gan yr esgob, gan gyfrannu at ei chadwraeth hirdymor. Parhaodd y sefydlogrwydd cymharol hwn ar

ôl iddo gael ei drosglwyddo i berchnogaeth breifat, gyda'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn digwydd yn ystod y ganrif ddiwethaf.

12.1.5. Daeth asesiad Heneb i'r casgliad, er bod llawer o stribedi wedi'u cyfuno neu eu hamgáu, ac mae rhai wedi cael eu heffeithio gan ddatblygiad, mae'r defnydd effaith isel o'r tir fel porfa yn bennaf wedi galluogi llawer o'r patrwm caeau hanesyddol i oroesi. Mae ffotograffiaeth o'r awyr a LiDAR yn dangos goroesiad rhyfeddol llawer o'r stribedi. Serch hynny, mae'r system gaeau yn parhau i fod yn agored i ddatblygiad pellach, newidiadau mewn defnydd tir a pherchnogaeth, yn ogystal ag erydiad arfordirol parhaus.

12.2. Potensial Archaeolegol

12.2.1. Bu sawl darganfyddiad cyn-ganoloesol yn ardal Llansantffraed. Mae man darganfod neolithig i'w weld ar draeth Llansantffraed lle daethpwyd o hyd i olion bwyell nadd a bwyell falu.

12.2.2. Mae darganfyddiadau cyfyngedig o'r Oes Efydd gan gynnwys pen bwyell yn Llansantffraed. Fodd bynnag, mae darganfyddiadau eraill o'r Oes Efydd o fewn y Plwyf a'r agosaf at ein hardal o ddiddordeb ni yw gweddillion bwyell wastad o'r Oes Efydd a ddarganfuwyd yn Fferm Rhyd-Torch Uchaf, Llanrhystyd Haminiog.

12.2.3. O ran darganfyddiadau o'r Oes Haearn / Rhufeinig, mae'r mwyafrif o'r olion archaeolegol hysbys ar ffurf clostiroedd amddiffynedig yr Oes Haearn fel yr un i'r de, Troed-y-Rhiw i'r gogledd-ddwyrain a Pant Wilog i'r dwyrain yn ogystal â'r trapiau pysgod. Fodd bynnag, mae man darganfod yr Oes Haearn / Rhufeinig yn Eglwys Sant Ffraed wedi'i gofnodi.

12.2.4. Mae'n amlwg bod pentref Llansantffraed wedi tyfu ar ffurf glystyrog ger y system caeau agored ganoloesol a'r eglwys. Mae adeiladau ac adeileddau canoloesol wedi cael eu nodi o fewn yr Ardal Gadwraeth a'r cyffiniau, megis Eglwys Sant Ffraed a thrapiau pysgod oddi ar yr arfordir, ac mae'n bosibl bod mwy o botensial archaeolegol i ddod o hyd i olion ychwanegol o'r cyfnod hwn.


12.2.5. Mae'n bosibl bod y diwydiant sy'n gysylltiedig â datblygiad y pentrefi, a'u hanes amaethyddol a morwrol, wedi gadael rhai olion tanddaearol sydd wedi cael eu gorchuddio a/neu eu tarfu arnynt gan arferion amaethyddol diweddarach. Fodd bynnag, rhaid nodi bod y diffyg mynediad ar gyfer peiriannau modern, sydd wedi arwain yn anfwriadol at gadwraeth y lleiniau, yn awgrymu y gallai darganfyddiadau archaeolegol barhau i fod yn gyfan. Mae arolwg Tirwedd Hanesyddol Archaeoleg Dyfed yn atgyfnerthu hyn ac yn nodi bod 'natur unrhyw ddiddordeb archaeolegol arwyddocaol yn yr ardal yn ymwneud â chloddwaith, adeiladau ac adeileddau claddedig-sych, creiriol'.[39]

12.2.6. At hynny, adeiladau ôl-ganoloesol yw'r mathau mwyaf niferus sydd wedi goroesi yn yr Ardal Gadwraeth, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at ei threftadaeth adeiledig. Mae olion hanesyddol cynnar o'r cyfnod hwn hefyd i'w gweld y tu allan i'r Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys y Neuadd yn Llanon a melinau ôl-ganoloesol eraill. Gwyddys hefyd fod yr ardal ehangach wedi cynnwys gefail gof Llanon, becws (Felinfor), bragdy, ysgolion (gan gynnwys ysgolion mordwyo ac ysgolion bwrdd), iardiau llongau (Aberlong, Felinfor, Morfa Uchaf a Chraiglas) a thollborth, i enwi dim ond rhai.[40]


[39] LANDMAP Portal.

[40] Gweler Doherty, Eric and Joyce. *Llanon/Llansantffraed* am enghreifftiau.

Ffigur 33: Map LiDAR o Lansantffraed (DTM)



Ffigur 34: Map LiDAR o Lansantffraed (DSM)



13. Bioamrywiaeth

13.1. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

13.1.1. I'r gorllewin o'r Ardal Gadwraeth mae Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) Bae Ceredigion. Mae hyn yn gorchuddio'r arfordir ac ardal sy'n ymestyn allan i'r môr o Fae Ceibwr yn Sir Benfro i Aber-arth, ychydig i'r gogledd o Aberaeron. Mae wedi'i dynodi oherwydd bod ganddi fywyd morol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae wedi'i dynodi ar sail saith nodwedd cadwraeth:

- Dolffin trwynbwl (Tursiops truncatus)
- Morlo llwyd (Halichoerus grypus)
- Lamprai'r môr (Petromyzon marinus)
- Lamprai'r afon (Lampetra fluviatilis)
- Riffiau
- Banciau tywod (wedi'u gorchuddio ychydig gan ddŵr môr bob amser)
- Ogofâu môr (boddedig neu'n rhannol foddedig)


13.2. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

13.2.1. Mae'r arfordir ar hyd yr ardal hon hefyd wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Aber-arth – Carreg Wylan am resymau daearegol, geomorffolegol a biolegol.

13.2.2. Mae'r dolffin trwynbwl a'r morlo llwyd o ddiddordeb arbennig. Mae traethau diarffordd ac ogofâu môr yn darparu mannau geni ar gyfer morloi llwyd. Mae'r draethlin, sy'n cynnwys riffiau, pyllau glan môr, clogfeini, cobl agored, graean a thywod yn cynnal ystod o gymunedau rhynglanwol pwysig, gan gynnwys enghreifftiau gwych o riffiau llyngyr diliau. Mae'r cramenogion pectenogammarus planicrurus, sy'n brin yn genedlaethol ac sy'n nodweddiadol o lannau graean glân, i'w gweld yma. Mae'r clogwyni môr yn darparu clwydi a safleoedd nythu ar gyfer poblogaethau cenedlaethol pwysig o'r frân goesgoch, y wylan goesddu a'r wylan gefnddu leiaf.

13.2.3. Mae cynefinoedd o ddiddordeb arbennig sy'n gysylltiedig â'r clogwyni a'r llethrau arfordirol yn cynnwys llystyfiant holltau a silffoedd clogwyni, glaswelltir glan môr a rhostir arfordirol sy'n cynnal nifer fawr o rywogaethau o blanhigion sy'n brin yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, gan gynnwys lafant y môr, gromil cyffredin a chlust y gath. Mae'r glöyn byw brith perlog prin a'r glas bychan, sy'n brin yn rhanbarthol, yn rhan o gymuned bwysig o infertebratau.

Ffigur 35: Map o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ger Llansantffraed.



14. Dadansoddiad SGCB

Cryfderau	Gwendidau
• Goroesiad system cae agored ganoloesol brin • Goroesiad balciau • Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus helaeth • Anheddau gwerinol traddodiadol • Eglwys Sant Ffraed rhestredig Gradd II* • Waliau ffin cerrig rwbel • Fflora a seilwaith gwyrdd • Lleoliad arfordirol a gwledig	• Lleiniau wedi'u cyfuno • Rhoi ffensys yn lle'r balciau • Datblygu yn ymledu i'r lleiniau • Datblygu amhriodol yn yr 20fed/21ain ganrif • Diffyg gwybodaeth am bwysigrwydd a nodweddion yr ardal • Diffyg arwyddion yn dynodi pwysigrwydd yr ardal • Adeileddau sy'n gysylltiedig ag arferion ffermio modern
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
• Gwarchod lleiniau prin pellach • Ymchwiliad archaeolegol • Addysg ar arferion ffermio hanesyddol • Gwelliannau bioamrywiaeth	• Erydiad arfordirol • Pwysau datblygu preswyl • Newidiadau mewn arferion ffermio • Pwysau i gael lle parcio yn arwain at golli triniaethau ffiniau



Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

15. Cyflwyniad

15.1. Trosolwg

15.1.1. Nod y Cynllun Rheoli hwn yw rhoi sylw i'r materion a'r cyfleoedd a nodir yn yr Arfarniad Ardal Gadwraeth trwy argymell ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal.

15.1.2. Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn ceisio nodi cynigion realistig ar gyfer rheoli'r Ardal Gadwraeth, gan ystyried yr adnoddau a chyfleoedd ariannu sydd ar gael i gefnogi gwelliant.

15.1.3. Dim ond argymhellion yw'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon a mater i Gyngor Sir Ceredigion a rhanddeiliaid perthnasol yw penderfynu a ydynt am weithredu'r cynigion yn y dyfodol.

15.1.4. Cynghorir y dylid ymgynghori ymhellach â'r cyhoedd a mabwysiadu trwy'r gweithdrefnau sefydliadol perthnasol cyn rhoi ar waith unrhyw un o'r argymhellion a nodir yn y Cynllun Rheoli hwn.

16. Canllawiau Cynllunio Atodol

16.1. Trosolwg

16.1.1. Mae awdurdodau cynllunio yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu ar geisiadau cynllunio gyda'r amcanion hyn mewn golwg.

16.1.2. Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a sicrhau cysondeb.

16.1.3. Dim ond y polisïau yn y cynllun datblygu mabwysiedig sydd â statws arbennig wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Fodd bynnag, gellir ystyried Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) fel ystyriaeth berthnasol, ar yr amod eu bod yn deillio o'r cynllun datblygu mabwysiedig ac yn gyson ag ef, a'u bod wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

16.2. Llansantffraed

16.2.1. Mae Polisi DM07 o CDLl mabwysiedig Ceredigion yn ymdrin â datblygu o fewn ardaloedd cadwraeth. Mae'r polisi hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r Arfarniad Ardal Gadwraeth berthnasol, lle bo ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.

16.2.2. Ers ei ddynodiad, nid yw Arfarniad Ardal Gadwraeth wedi cael ei baratoi ar gyfer Llansantffraed. Mae methu â pharatoi arfarniad ardal gadwraeth a'i fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn golygu bod diffyg gwybodaeth ar gael i benderfynwyr wrth benderfynu ceisiadau a allai effeithio ar yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cyfrannu at erydiad yr Ardal Gadwraeth.

16.3. Argymhellion

16.3.1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion fabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a chynllun Rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd hyn yn gwarantu bod digon o wybodaeth ar gael i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw er mwyn sicrhau bod cymeriad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei gadw a'i wella.

17. Adolygiad Ffin

17.1. Trosolwg

17.1.1. Mae gan awdurdodau cynllunio ddyletswydd i adolygu eu hardaloedd cadwraeth a llunio a chyhoeddi chynigion ar gyfer eu cadw a'u gwella. Mae rhan o'r broses adolygu yn cynnwys ystyried a yw ffin bresennol yr ardal gadwraeth yn dal yn briodol ac a ddylid ychwanegu neu eithrio unrhyw ardaloedd.

17.2. Llansantffraed

17.2.1. Dynodwyd yr Ardal Gadwraeth bresennol yn 1992, ac nid yw'r ffin wedi'i newid ers hynny. O fewn ffin yr Ardal Gadwraeth mae Eglwys Sant Ffraed sydd wedi'i rhestru'n adeilad Gradd II*, craidd adeiledig hanesyddol Llansantffraed, a'r system caeau agored ganoloesol o'r enw Morfa Esgob.

17.2.2. Wrth ei dynodi, nodwyd na ddylid cynnwys yr holl 'leiniau' sydd i'w cael yn Llansantffraed a Llanon yn yr Ardal Gadwraeth, gan gredu y gallai eu cynnwys fod yn 'symbolaidd'. Mae'r lleiniau sydd wedi'u heithrio yn cynnwys grŵp sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de, yn union gerllaw'r ffin bresennol, a hefyd rhai sydd wedi'u lleoli i'r dwyrain o'r Stryd Fawr. Mae'r olaf yn cynnwys ambell i enghraifft o fythynnod gwerinol tebyg i'r rhai ar hyd Heol-yr-Esgob.

17.2.3. Mae'r lleiniau a gafodd eu heithrio o'r Ardal Gadwraeth wedi wynebu pwysau gan ddatblygu tai. Dylai arwyddocâd y lleiniau hyn a'u cyfraniad at gymeriad yr ardal gael ei gydnabod. Roedd consensws cryf gan y gymuned leol y dylid eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth.

17.2.4. Gofynnodd aelodau'r gymuned hefyd i gynnwys Llanon, i wahanol raddau, yn yr Ardal Gadwraeth. Mae adolygiad o Lanon yn dangos bod adeileddau hanesyddol yn yr anheddiad, ond mae'r rhain o wahanol gyfnodau. Nid oes dyluniad pensaernïol cyson na chyfnod hanesyddol sy'n diffinio datblygiad yn Llanon. At hynny, mae llawer o'r adeileddau hanesyddol yn Llanon yn adeiladau rhestredig

sy'n golygu eu bod eisoes yn cael lefel sylweddol o warchodaeth, ac ni fyddai eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth yn rhoi mwy o warchodaeth iddynt.

17.2.5. Mae ychydig o ardaloedd lle mae eiddo'n debyg i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth bresennol, sef ar hyd Stryd-y-Capel a Heol Non, lle mae gwiriadau cychwynnol yn dangos nad yw'r adeiladau wedi'u rhestru. Mae'r adeileddau hyn yn gydnaws â'r Ardal Gadwraeth bresennol gan eu bod yn enghreifftiau o fythynnod gwerinol wedi'u hadeiladu o gerrig rwbel, a byddai eu cynnwys yn cyfrannu at werth grŵp yr ardal.


17.3. Argymhellion

17.3.1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ystyried ymestyn ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth i gynnwys y lleiniau i'r gogledd o Morfa Esgob ac i'r dwyrain o'r Stryd Fawr. Dylai'r estyniad hefyd gynnwys y ffurf adeiledig ar hyd Stryd-y-Capel a Heol Non i'r de a'r dwyrain. Byddai cadw, gwarchod a gwella'r nodweddion hyn trwy eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth yn cyfrannu at gymeriad yr ardal a dealltwriaeth o'r ardal.

17.3.2. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ystyried tynnu'r eiddo y cyfeirir ato fel 'Tŷ Breuddwyd' o'r Ardal Gadwraeth oherwydd nid yw'r adeiledd na'i gwrtil yn gydnaws â phrif nodweddion yr Ardal Gadwraeth.

17.3.3. Dangosir maint llawn y newidiadau arfaethedig yn Ffigur 36.

Ffigur 36: Newidiadau arfaethedig i ffin yr Ardal Gadwraeth.



18. Cyfarwyddiadau Erthygl 4

18.1. Trosolwg

18.1.1. Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn offeryn sydd ar gael i awdurdodau cynllunio sy'n caniatáu iddynt ddileu hawliau datblygu a ganiateir. Mae hawliau datblygu a ganiateir yn cyfeirio at waith penodol y gellir ei wneud heb yr angen am ganiatâd cynllunio.

18.1.2. Nid yw cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn golygu nad yw'r gwaith hwnnw'n cael ei ganiatáu, dim ond bod angen cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i'r awdurdod cynllunio. Yn ei hanfod, mae'n ffordd i awdurdodau lleol adennill rheolaeth dros rai datblygiadau.

18.1.3. Cyflwynodd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.) (Diwygio) (Cymru) 2022 ddau fath o gyfarwyddyd y gellir eu gwneud:

- cyfarwyddyd sy'n dod i rym ar unwaith; a
- chyfarwyddyd heb effaith ar unwaith.

18.1.4. Pan fydd awdurdod cynllunio yn fodlon ei bod yn fuddiol na ddylid cynnal math o ddatblygu oni bai fod caniatâd wedi'i roi ymlaen llaw, gallant wneud cyfarwyddyd sy'n dod i rym ar unwaith. Y mathau o ddatblygu y gellir cymhwyso cyfarwyddiadau sy'n dod i rym ar unwaith iddynt yw:

- Rhan 1 (Datblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd);
- Rhan 2 (Gweithrediadau bach);
- Rhan 3 (Newid defnydd) ac eithrio datblygiad a ganiateir gan baragraffau (b)(i) a (c)(i) o Ddosbarth I;
- Rhan 4 (Adeiladau a defnyddiau dros dro);
- Rhan 31 (Dymchwel adeiladau).

18.1.5. Mae cyfarwyddiadau sy'n dod i rym ar unwaith yn para am chwe mis gan ddechrau ar y dyddiad y maent yn dod i rym oni bai eu bod yn cael eu cadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cyn diwedd y cyfnod o chwe mis.

18.1.6. Rhoddir cyfarwyddyd heb effaith ar unwaith pan fydd awdurdod cynllunio yn ceisio dileu hawliau datblygu a ganiateir o fewn dosbarthiadau datblygu heblaw'r rhai a nodwyd uchod. Mae angen cyfnod cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cyn y gall yr awdurdod cynllunio lleol gadarnhau'r cyfarwyddyd.

18.2. Llansantffraed

18.2.1. Ar hyn o bryd nid oes Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le ar gyfer Ardal Gadwraeth Llansantffraed.

18.2.2. Mae'r arfarniad wedi nodi bod newid mewn arferion ffermio, a'r seilwaith, y gweithfeydd a'r adeileddau sy'n gysylltiedig â hyn, yn peri bygythiad i'r lleiniau a'u ffiniau hanesyddol. O dan y trefniadau presennol, gellir ymgymryd â datblygiadau amaethyddol helaeth heb ganiatâd cynllunio, er y gallai fod angen hysbysiad ymlaen llaw mewn rhai achosion.

18.2.3. Mae'r arfarniad yn dangos bod waliau terfyn traddodiadol ar hyd Heol-yr-Esgob wedi cael eu colli dros y blynyddoedd er mwyn darparu lle ar gyfer parcio oddi ar y stryd. Mae'r waliau cerrig traddodiadol, sydd yn aml wedi'u gwyngalchu, yn nodwedd bwysig o'r Ardal Gadwraeth, a byddai eu colli'n llwyr yn niweidiol i gymeriad yr ardal. O dan y trefniadau presennol, mae angen caniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu lle mae'n 1m neu'n uwch wrth ymyl priffordd, neu 2m ac yn uwch mewn mannau eraill.

18.3. Argymhellion

18.3.1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ystyried cyfleoedd i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 heb effaith ar unwaith sy'n ceisio dileu rhai hawliau datblygu amaethyddol a ganiateir. Byddai hyn yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio gael mwy o reolaeth

dros adeileddau a gweithfeydd sy'n gysylltiedig ag arferion ffermio modern a allai fod yn effeithio'n negyddol ar y system caeau agored ganoloesol hanesyddol.

18.3.2. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ystyried cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 sy'n dileu hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud â dymchwel adeiladau er mwyn atal colli waliau terfyn cerrig traddodiadol.

19. Rhestru Lleol

19.1. Trosolwg

19.1.1. Gall awdurdodau cynllunio ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r rhestr hon geisio cynnwys asedau hanesyddol lleol nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig neu barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig.

19.1.2. Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar 'restr leol' wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd. Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad.

19.1.3. Lle mae awdurdod cynllunio yn dewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, rhaid cynnwys polisïau ar gyfer cadw a gwella'r asedau hynny yn y cynllun datblygu.

19.2. Llansantffraed

19.2.1. Ar hyn o bryd, nid oes rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ar gyfer Ceredigion. Mae hyn yn golygu bod nifer o adeiladau o bwysigrwydd lleol, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu dynodi'n genedlaethol, heb lefel ddigonol o ddiogelwch. Mae hyn er gwaethaf eu gwerth hanesyddol a phensaernïol.

19.2.2. Nid yw diffyg 'rhestr leol' yn unigryw i Geredigion gan fod hyn yn gyffredin ar draws awdurdodau cynllunio yng Nghymru. Roedd hyn wedi ysgogi'r Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, Dawn Bowden AS, i ysgrifennu at yr awdurdodau lleol ar 28 Medi 2022 yn annog awdurdodau i fanteisio ar yr opsiwn o 'restru lleol'.

19.2.3. Mewn ymateb i lythyr y Dirprwy Weinidog, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gweithio ar ddatblygu fframwaith y gellir asesu a dynodi adeileddau posibl o

ddiddordeb lleol yn ei erbyn. Mae'r gwaith hwn yn parhau ond oherwydd cyfyngiadau adnoddau mae wedi'i ohirio.

19.3. Argymhellion

19.3.1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion barhau i ddatblygu fframwaith ar gyfer nodi a mabwysiadu adeileddau o ddiddordeb lleol. Dylid ymgynghori ar y fframwaith hwn ac yna ei fabwysiadu'n ffurfiol trwy'r gweithdrefnau perthnasol.

19.3.2. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ymgysylltu â'r gymuned leol a sefydliadau megis Cyngor Cymuned Llansantffraed a Chymdeithas Hanesyddol Llansantffraed i gynorthwyo gyda nodi adeileddau o ddiddordeb lleol yn yr ardal. Gallai adeileddau gynnwys enghreifftiau da o fythynnod gwerinol a balciau neu nodweddion ffiniau lleiniau eraill sy'n dal i fodoli. Mae enghreifftiau o rai adeileddau y gellid eu dynodi'n asedau o ddiddordeb lleol yn cynnwys:

- Constant
- Sŵn-y-Don
- Convoy
- Derwent Dale
- Min y mor
- Seaway, Ty Canol, Morwylfa
- Awelfor
- Pen-y-Banc
- Brig-y-Don
- Hafan
- Galwad-Y-Môr

19.3.3. Yn ystod yr adolygiad nesaf o'r CDLl, dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu polisi i'w gynnwys yn y CDLl newydd sy'n rhoi sylw i adeileddau a gafodd eu rhoi ar y 'rhestr leol' er mwyn sicrhau eu bod yn cael y diogelwch angenrheidiol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.

20. Gorfodaeth Cynllunio

20.1. Trosolwg

20.1.1. Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth. Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau yn deall ble mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r awdurdod cynllunio am gyngor.

20.1.2. Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer awdurdodau cynllunio a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau. Trafod a negodi gyda'r perchennog neu feddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

20.2. Llansantffraed

20.2.1. Nid oes adolygiad sylfaen cynhwysfawr ar gyfer Llansantffraed ac efallai nad yw perchnogion a deiliaid yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.

20.2.2. Mae ôl-groniad presennol o achosion gorfodi yng Ngheredigion oherwydd diffyg adnoddau hanesyddol sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cytuno'n ddiweddar i fuddsoddi £346,000 yn y Gwasanaeth Gorfodaeth Cynllunio a fyddai'n arwain at rolau newydd, gan gynnwys adnodd cyfreithiol pwrpasol a dau swyddog gorfodi arbenigol, a byddai un ohonynt yn canolbwyntio ar dreftadaeth adeiledig.

20.3. Argymhellion

20.3.1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion fwrw ymlaen â'r ymgyrch recriwtio i gyflogi staff ychwanegol ym maes gorfodi cynllunio gan gynnwys arbenigwr ym maes treftadaeth adeiledig.

20.3.2. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddefnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r Arfarniad a'r Cynllun Rheoli hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi. Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r Ardal Gadwraeth.

20.3.3. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ymrwymo i ddilyn arferion gorau gweithdrefnau gorfodi o fewn ei ardaloedd cadwraeth.

21. Cofrestru

21.1. Trosolwg

21.1.1. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archaeolegol o bwys cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith trwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

21.1.2. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn un eang. Mae'n cynnwys nid yn unig cestyll, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol adnabyddus, ond hefyd safleoedd llai cyfarwydd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiannau haearn, glo a llechi yng Nghymru. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion, nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol.

21.1.3. Cadw sy'n ymgymryd â'r broses gofrestru ar ran Gweinidogion Cymru. Oherwydd natur amrywiol henebion hanesyddol, mae'r meini prawf a ddefnyddir i ddewis pa safleoedd fydd yn cael eu gwarchod ar gyfer y dyfodol yn eithaf amrywiol er mwyn caniatáu elfen o hyblygrwydd. Wedi dweud hynny, y prif ystyriaethau yw:

- Cyfnod
- Prinder
- Dogfennaeth
- Gwerth grŵp
- Goroesiad/cyflwr
- Breuder/bregusrwydd
- Amrywiaeth

- Potensial

21.1.4. Mae angen caniatâd ymlaen llaw Gweinidogion Cymru ar gyfer gwaith a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar heneb gofrestredig. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad. Gwneir ceisiadau am ganiatâd heneb gofrestredig i Weinidogion Cymru trwy Cadw. Mae'n drosedd i ddinistrio neu ddifrodi heneb gofrestredig, ymgymryd â gwaith heb ganiatâd heneb gofrestredig neu beidio â chydymffurfio â'i amodau.

21.2. Llansantffraed

21.2.1. Nid oes unrhyw henebion cofrestredig o fewn Ardal Gadwraeth Llansantffraed. Fodd bynnag, mae cefnogaeth leol gryf, fel y nodwyd yn y digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus, dros ddynodi'r system caeau agored ganoloesol yn heneb gofrestredig.

21.2.2. Er bod y system caeau agored wedi'i lleihau'n fawr, ac efallai nad yw rhai elfennau sydd wedi goroesi mewn cyflwr perffaith, mae'n parhau i fod yn enghraifft dda o system caeau agored ganoloesol. Dylid ystyried cyflwr yr ardal, y nodweddion sydd wedi goroesi a'r potensial archaeolegol fel rheswm dros gofrestru'r heneb.

21.2.3. Mae'r gostyngiad yn maint y system caeau agored a pha mor hawdd y gallai colledion pellach ddeillio o newidiadau syml mewn arferion ffermio yn dweud llawer am fregusrwydd y lleiniau. Mae'r tebygolrwydd o golled yn cael ei waethygu ymhellach gan y pwysau sy'n deillio o erydiad arfordirol ac anghenion datblygu. Byddai heneb fregus o'r natur hon yn elwa'n arbennig o'r diogelwch statudol y mae cofrestru yn ei gynnig.

21.2.4. Mae'r achos dros gofrestru yn cael ei atgyfnerthu gan brinder y system caeau agored, nid yn unig yn y cyd-destun lleol ond yn y cyd-destun cenedlaethol hefyd. Er bod system debyg yn bodoli yn Rhosili, Abertawe, mae'n debyg mai'r lleiniau yn Llansantffraed a Llanon yw'r unig enghraifft sydd wedi goroesi o system gaeau o'r fath yn y rhan o Gymru sydd heb ei Seisnigeiddio.

21.3. Argymhellion

21.3.1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion brysuro'r trafodaethau gyda Cadw ynghylch cofrestru'r system caeau agored ganoloesol yn Llansantffraed a Llanon er mwyn sicrhau bod yr heneb brin a bregus yn cael ei diogelu'n ddigonol. Dylid rhoi cymorth i Cadw a phartneriaid lle bo angen er mwyn symud ymlaen i gofrestru.

22. Addysg, Dehongli a Dathlu

22.1. Trosolwg

22.1.1. Mae darparu cyfleoedd i ddysgu mwy am ardal gadwraeth yn meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o nodweddion unigryw a threftadaeth ddiwylliannol ardal, gan annog stiwardiaeth ac ymddygiad cyfrifol ymhlith trigolion ac ymwelwyr.

22.1.2. Gall mentrau addysgol ategu nodau cynllunio lleol trwy feithrin cefnogaeth y cyhoedd i bolisïau cadwraeth a helpu pobl i ddeall y rhesymau dros gyfyngiadau datblygu.

22.1.3. Gall ymwybyddiaeth gynyddol arwain at fwy o gyfranogiad cymunedol mewn ymdrechion cadwraeth, o wirfoddoli i eiriolaeth. Yn y pen draw, mae cymunedau gwybodus mewn sefyllfa well i warchod cymeriad unigryw eu hardaloedd cadwraeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a helpu i'w dathlu.

22.2. Llansantffraed

22.2.1. Mae arwyddocâd hanesyddol Llansantffraed, yn enwedig y system caeau agored ganoloesol, yn cael ei werthfawrogi a'i barchu'n fawr yn lleol. Fodd bynnag, mae llai o ymwybyddiaeth o arwyddocâd yr ardal y tu hwnt i'r ardal leol.

22.2.2. Roedd y sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o gyflwyno mentrau i godi ymwybyddiaeth o'r ardal ymhlith trigolion ac ymwelwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd i ysgolion lleol gynnal prosiectau yn yr ardal mewn cydweithrediad â sefydliadau hanesyddol megis Cadw a Heneb. Roedd cynigion eraill hefyd yn cynnwys ymyriadau syml megis arwyddion gwell i esbonio hanes ac arwyddocâd y system caeau agored i ymwelwyr.

22.3. Argymhellion

22.3.1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion gynnal sgyrsiau â'r gymuned leol, darparwyr addysg a sefydliadau hanesyddol megis Cadw a Heneb i ystyried cyfleoedd i farchnata'r Ardal Gadwraeth yn well, a gwella dealltwriaeth ohoni, yn enwedig y system caeau agored ganoloesol.

23. Monitro ac Adolygu

23.1. Trosolwg

23.1.1. Disgwylir i awdurdodau cynllunio adolygu ardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd. Yn gyffredinol, ystyrir mai bob pum i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau. Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.

23.1.2. Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

23.2. Llansantffraed

23.2.1. Dyma'r adolygiad cyntaf o'r Ardal Gadwraeth ers iddi gael ei dynodi. Yr unig wybodaeth oedd ar gael cyn yr arfarniad a'r cynllun rheoli hwn oedd disgrifiad byr ac adroddiad a luniwyd pan gafodd ei dynodi.

23.2.2. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi penodi swyddog cynllunio newydd sy'n gyfrifol am gadwraeth, ac mae wedi gallu cyfeirio rhai adnoddau polisi cynllunio at dreftadaeth adeiledig tra bod gwaith ar y CDLl newydd wedi'i ohirio oherwydd effaith maetholion ar Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi.

23.3. Argymhellion

23.3.1. Dylai Cyngor Sir Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.

23.3.2. Dylai Cyngor Sir Ceredigion gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.

23.3.3. Dylai Cyngor Sir Ceredigion sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod swyddogion cadwraeth a threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.

23.3.4. Dylai Cyngor Sir Ceredigion hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod ei ddyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.



Cyfeiriadau ac Atodiadau

24. Atodiadau

25. Cyfeiriadau

Erthyglau

"Turnpike and Pre-Turnpike roads in Ceredigion." *Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed*, 2016.

"Medieval and early Post-medieval Mills A threat related Assessment." *Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed*, 2012-14.

Cyfnodolion

Parkinson, A.J. "Mills in Cardiganshire." *Melin*, cyfrol 6, rhannau 1 a 2, 1990.
Parkinson, A.J. 'Mills in Cardiganshire', Rhan 2. *Melin* 7,1991.
Parkinson, A.J. "Vitruvian Mills in Cardiganshire." *Melin,* cyfrol 3, 1987.

Thomas, Spencer. "Land Occupation, Ownership, And Utilisation in the parish of Llansantffraid". *Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society*, Cyfrol 3, rhif 2, 1957, td.124-155.

Thomas, Spencer. "The Enumerators' Returns as a source for a period Picture of the Parish of Llansantffraid 1841-1851".*Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society*, Cyfrol 4, rhifau 1-4, 1963, td.408-421.
Davies, W.H. "The Romans in Cardiganshire." *Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society*, Cyfrol 4, rhif 2, 1961, td. 85-94.
Lewis, W.J. 'A Disturbance on Llanrhystud Mountain', *Ceredigion*, Cyfrol IV, td.312.

Casgliadau wedi'u golgyu

Jones, G.R.J. in *Medieval Villages: A review of Current Work*, golygwyd gan Della Hooke, Ysgol Archaeoleg Prifysgol Rhydychen,1985.

Doherty, Eric and Joyce. *Notes on Llanon / Llansantffraed,* 2008.

Dodgeshon, R.A. "Early society and economy". *Cardiganshire County History,* Vol 1: From the Earliest Times to the Coming of the Normans, golygwyd gan D.P Kirkby, J.L Davies, Ieuan Gwynedd Jones, Gwasg Prifysgol Cymru, 2001. td.351.

Davies, J.L. "T**he Roman Period**". *Cardiganshire County History,* Vol 1: From the Earliest Times to the Coming of the Normans', golygwyd gan D.P Kirkby, J.L Davies, Ieuan Gwynedd Jones, Gwasg Prifysgol Cymru, 2001, td.276-317.

Morgan, Gerald. "Agriculture." *Cardiganshire County History Volume 2: Medieval and Early Modern Cardiganshire*, golygwyd gan Geraint H. Jenkins et al., rhifyn 1af, Gwasg Prifysgol Cymru, 2019, td. 35–64.

Austin, David, and Jemma Bezant. "The Medieval Landscapes of Cardiganshire." *Cardiganshire County History Volume 2: Medieval and Early Modern Cardiganshire*, golygwyd gan Geraint H. Jenkins et al., rhifyn 1af, Gwasg Prifysgol Cymru, 2019, td. 1–34.

Suggett, Richard. "Medieval Dwellings and Their Successors." *Cardiganshire County History Volume 2: Medieval and Early Modern Cardiganshire*, golygwyd gan Richard Suggett et al., rhifyn 1af, Gwasg Prifysgol Cymru, 2019, td. 111–174.

Llyfrau

Jones, G.R.J. in Medieval Villages: A review of Current Work, golygwyd gan Della Hooke, Ysgol Archeoloeg Prifysgol Rhydychen,1985.

Jones, Caroline Charles. *Jones, Frances. Historic Cardiganshire Homes and their families*. Brawdy Books, Sir Benfro, 2000.

Jenkins, J.G. *Maritime Heritage: The Ships and Seamen of Southern Ceredigion.* Gomer,1982.

Jenkins, J.G. 'Welsh Ships and Sailing Men'. Gwasg Carreg Gwalch, 2006.

~~Glanville Jones The gwely as a tenurial institution~~

~~Jones, Glanville R. J.. (1996) – In: Studia Celtica vol. 30 (1996) p. 167-188~~

~~Early customary tenures in Wales and open-field agriculture~~

~~Jones, Glanville R. J.. (1981) – In: The Origins of Open-Field Agriculture p. 202-225~~

Gwefannau

Hanes teulu Harries:

https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&ved=2ahUKEwjBr4S9oI-QAxUia0EAHRbAIoYQFnoECB]#gQAQ&url=http%3A%2F%2Fharriesfamilyhistory.co.uk%2Fhistory.html&usg=AOvVaw1mqMe6e_wnINvltYv-U4Iw&opi=89978449.

Manylion Arolwg, Tirwedd Hanseddol, Llannon, Ceredigion, 2008-03-05 "Landmap Portal

(naturalresources.wales)": https://landmap

portal.naturalresources.wales/view_survey.php?survey_id=12621.

Cymdeithas Hanes Llansantffraed: The Land in Llansantffraed/Llanon.
https://www.llanon.org.uk/joyceweb/land.htm.

Denton, Jeff et al. *Taxatio*. Cyhoeddwyd gan The Digital Humanities Institute, Sheffield of Sheffield; 2014.

https://www.dhi.ac.uk/taxatio/benkey?benkey=DA.CG.UA.03.

Llyfr Du Tyddewi: Llyfr Du Tyddewi – Archifau a Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

https://archives.library.wales/index.php/black-book-of-st-davids

CBHC: https://rcahmw.gov.uk/.